YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

AWST, 1868.

ATHRAWIAETHAU EIN HEGLWYS.

NID oes dim ammheuaeth nad yw ein syniadau ni fel enwad o Gristnogion yn cael eu cam-ddarlunio yn fynych i'r werin anwybodus, a hynny gan ddynion oddiwrth ba rai y gellid dysgwyl onestach ymddygiad. Beth all fod eu bwriad? Ai zêl dros yr hyn a dybiant yn wirionedd crefyddol sydd yn eu hysu? Os felly, dywedwn nas gallwn gymmeradwyo eu ffordd o wneuthur cymmwynas â'r gwirionedd, sef trwy gamddarlunio syniadau eu gwrthwynebwyr. Os mewn anwybodaeth y gwnant hyn, dylent fel dynion geirwir a difrifol, cyn agor eu penau yn ein herbyn, wneuthur eu hunain yn gyntaf yn adnabyddus â'n syniadau. Mae cyfiawnder yn gofyn hyn ar eu llaw. Ai eu dyben ynte yw creu rhagfarn yn ein herbyn, rhag ofn pe deuai y werin i wybod ysgrythyroldeb a rhesymolded ein ffydd, y cofleidient hi ac y gadawent Drindodiaeth? Gan nad beth yw y bwriad, mae ein syniadau yn cael eu camddarlunio.

Ond cyn myned y mlaen, nid maes o le fyddai enwi yr athrawiaethau Trindodaidd ag ydym ni yn wrthod fel dyfeisiau duwinyddawl heb iddynt sylfaen yn y grefydd Grist'nogol. Mae eisiau bod yn eglur ar y pen hwn, oblegid honna rhai am ein ffydd mai rhyw beth nacaol ydyw, hynny yw, ei bod yn gynnwysedig mewn gwadu pob peth ag y mae'r Trindodiaid yn gredu, ac nad oes gennym ddim sydd yn gadarnhaol. Dygir y cyhuddiad disail hwn yn erbyn ein ffydd gan rai a ddylent wybod yn well. Os ydym yn tynnu i lawr rai hên adeiladau am eu bod yn sigledig ac yn mron cwympo, yr ydym yn credu ein bod bob amser yn adeiladu yn eu lle dai cadarnach, mwy goleu ac awyrawl, mwy cydweddol ag iechyd a happusrwydd yr anneddwyr. Yn y ffydd Undodaiddd nid oes dim sydd yn nacaol.

Yr ydym yn gwrthod,

I. *Athrawiaeth y Drindod.*—Ystyriwn ei bod yn groes i dystiolaeth yr Ysgrythyrau y rhai a ddysgant mai un BOD anrhannadwy yw Duw. Ystyriwn hefyd ei bod yn groes i dystiolaeth y greadigaeth yr hon a ddysga i ni yr un peth am y Creawdwr doeth a daionus â'r Ysgrythyrau, sef mai UN ydyw. Nis gallwn lai nac ystyried fod athrawiaeth y Drindod

yn niweidiol iawn i'r grefydd Grist'nogol. Yr ydym yn edrych arni fel un o weddillion paganiaeth.

II. *Yr ydym yn gwrthod hefyd athrawiaeth boblogaidd yr Iawn.*—Nid ydym yn gallu credu fod dioddefaint a marwolaeth Crist yn brawf o lid Duw yn ei erbyn fel dirprwywr! Nid ydym yn credu mai dyben marwolaeth Crist oedd dofi llid y Tad, nac ychwaith i roddi iawn i'r gyfraith. Nis gallwn lai na meddwl fod yr athrawiaeth hon yn taflu gwaradwydd ar gymmeriad Duw fel bod daionus a chyfiawn. Tuedd yr athrawiaeth yw meithrin anffyddiaeth, a thynnu gwawd ar grefydd Crist. Fel y Drindod, cyfundraeth ydyw o ddychymyg dynion.

III. *Yr ydym yn gwrthod yr athrawiaeth Galfinaidd o etholedigaeth a gwrthodedigaeth ddiammodol.*—Nis gallwn gredu i Dduw, y Tad Nefol, arfaethu o'i benarglwyddiaeth, fel y dywedir, rai o'i greaduriaid i fywyd tragwyddol ac eraill i boenau diddiwedd, a hynny hefyd yn hollol annibynnol ar ymarweddiad moesol. Gwyddom fod llawer a broffesant yr athrawiaeth arswydus hon yn ei gwadu mewn arferiad. Yn ol yr athrawiaeth hon mae y Tad Nefol yn greulonach na'r gwaethaf o rieni daearol. A'r sawl a gredant yr athrawiaeth yn ddifrifol, truenus yw meddwl yr effaith a gâ arnynt. Mae wedi danfon llawer i wallgofrwydd, a rhai i osod llaw arnynt eu hunain!

Gwrthodwn y tair athrawiaeth hyn, ond nid priodol yw dyweyd fod gwrthod athrawiaeth yn erthygl ffydd. Mae y ffydd Undodaidd yn hollol annibynnol ar ein gwaith yn gwrthod y rhai hyn, ac nid oes un ffydd yn fwy cadarnhaol. Fel y sylwasom yn barod, ynddi nid oes dim sydd yn nacaol.

Ac yn awr, ddarllenydd, dangoswn yn fyr beth yw athrawiaethau ein heglwys. Mae gwahaniaeth barn yn ein plith ni fel eraill y'nghylch llawer o bynciau crefyddol, ond nid oes nemawr, os oes dim, y'nghylch prif egwyddorion ein ffydd. Yr ydys yn sicr fod mwy o undeb athrawiaethol yn ein plith ni yr Undodiaid, a elwir yn briodol felly, nac un enwad tan haul, er hynny, nid oes un enwad yn fwy rhydd i gredu fel y byddo'r gwirionedd yn ymddangos i'r naill a'r llall o honom. Nid oes gennym gredo ysgrifenedig, etto cymmaint yw grym cynhenid egwyddorion y grefydd Grist'nogol, fel yr ymgynnygant eu hunain i bob meddwl yn gyffelyb yr un modd, os na fydd wedi cael ei ddyrysu gan athrawiaethau arddansoddawl *(metaphysical)* Trindodiaeth. Y rhai hyn sydd yn syfrdanu meddyliau dynion. Cyhyd ag y byddo'r meddwl tan eu dylanwad, mae bron yn ammhosibl iddo ddyfod i adnabyddiaeth iawn o'r Grefydd Grist'nogol. Mae yn rhy eglur, yn rhy *simple*, iddo allu credu mai egwyddorion yr efengyl ydynt Rhaid i ddyn tan ddylanwad cyfundraethau Trindodaidd gael rhyw bethau mawr, dyfnion, i'w credu; rhyw bethau ag y mae dirgelwch y'nglun â hwynt. Mae pethau eglur y grefydd Grist'nogol yn rhy fach yn ei olwg. Nid ystyria mai pethau *simple* yw pob gwirioneddau, pa un ai yn perthyn i grefydd ai i athroniaeth. Pwy fyfyriwr dwys nad yw ryw bryd neu gilydd wedi rhyfeddu am wirioneddau ag sydd wedi costi llafur meddwl iddo i'w canfod, mor *simple*, mor eglur, ydynt yn y diwedd! Teimla braidd yn anfoddlawn iddo ei hun am na fuasai yn eu canfod yn gynt. Mae yn gweled mai yn ei feddwl ei hun oedd y dyryswch. Efe oedd yn creu'r mynyddau.

Felly am y grefydd Grist'nogol, peth eglur ydyw, hawdd ei dirnad. Dywedwn, fel y dywedodd Moses gynt wrth yr Israeliaid am y gyfraith, "Dirgeledigaethau, i Jehovah ein Duw y maent; pethau datguddiedig sydd i ni a'n plant yn dragywydd." Ond i ddychwelyd,

Mae pawb Undodiaid yn credu yn y Bod o Dduw, ac mai UN BOD anrhannadwy ydyw, UN HANFOD, UN DUW. Credant ei fod yn llenwi nefoedd a daear â'i bresennoldeb, ac nad oes un Duw arall ond EFE. Gelwir ni, ac yr ydym yn galw ein hunain, *Undodiaid*, am ein bod yn dal undod anrhannadwy y Duwdod, mewn cyferbyniad i'r sawl ydynt yn dal fod yr Hanfod Ddwyfol yn rhannedig i dri o bersonau, a phob un o honynt yn Dduw gogyfuwch, ac am hynny a elwir *Trindodiaid*. Nid ydym ni, yr Undodiaid, yn proffesu gwybod pa fodd y bodola yr Hanfod Ddwyfol, na pha fodd y mae yn hollbresennol, am hynny, nid ydym yn credu dim am y *pa fodd*: ond ei fod yn bodoli, ac mai UN ydyw, a'i fod yn hollbresennol, mae gennym ddigon o brofion. Yr ydym hefyd yn credu mai BOD daionus ydyw, ac i fod ei drugaredd ar ei holl weithredoedd. Yr ydym yn credu fod ei Ragluniaeth yn ein cynnal bob mynyd o'n bywyd, yn darparu ar gyfer ein hangenrheidiau, ac yn ein gwaredu rhag peryglon. Yn fyr, yr ydym yn credu mai ein TAD ydyw.

Yr ydym hefyd yn credu ei fod yn maddeu pechodau a chamweddau ei blant ar eu hedifeirwch yn unig. Nid ydym yn credu ei fod yn gofyn iawn am bechodau i'w gyfraith nac i ddim arall. Yr unig iawn mae yn ofyn yw edifeirwch a dychweliad yr afradlon yn ol i dy ei Dad. Heb hyn nid oes dim maddeuant, yn ol ein barn ni. Yr unig rwystr ar ei ffordd i faddeu yw, nid y gyfraith, ond yr anian bechadurus yn y galon. Rhaid cyfnewid hon yn hollol, a cyfranogi o anian sanctaidd Duw yn yr hon yn unig mae gwir ddedwyddwch a thragwyddol ei barhad. Yr ydym yn credu nad oes gan Dduw ddedwyddwch i'w roddi i'r pechadur anedifeiriol. Yr ydym yn credu fod Duw yn cyfranu o'i anian i'r sawl sydd yn ei cheisio ganddo yn ddifrifol, ac yn llafurio am dani.

Yr ydym hefyd yn credu y 'Nghrist. Undodiaid ydym, nid cyffelyb i'r Iuddewon, neu'r Mahometaniaid, neu'r Deistiaid, ond Undodiaid Crist'nogol ydym. Yr ydym yn credu fod yr Iesu o ddwyfol ddanfoniad, iddo wneuthur gweithredoedd nerthol fel y mae gennym hanes am dano yn y Testament Newydd, iddo gael ei osod i farwolaeth, ac iddo adgyfodi o feirw, ac esgyn i'r Nef. Am nattur ei berson nid ydym yn proffesu gwybod dim mwy nac am ein nattur ein hunain. Ystyriwn mai rhyfyg mawr yw dyweyd fod yn rhaid ei fod yn *Ddaw*, neu yn angel, neu yn unrhyw beth gwahanol i'r hyn a ymddangosai, neu a ddywedai ei fod. Pwy wyddai beth ydoedd yn well nac ef ei hun? Yr ydym yn credu mai efe yw Uniganedig Fab DDUW, delw y DUW Anweledig, ac nad yw yn bossibl i neb ddyfod at y *Tad* ond trwyddo ef. Yr ydym yn diolch i'r Tad am ei ddanfon i'r byd i ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni trwy'r Efengyl.

Credu ydym nad oes neb yn ddysgyblion cywir i'r Iesu ond y sawl sydd yn cyfranogi o'i ysbrydol anian, yn un ag ef mewn cariad at Dduw a dynion, yn un mewn parodrwydd i faddeu, yn un mewn gostyngeiddrwydd. Yr ydym yn credu fod cyfrinach ysbrydol yn wastad rhwng ei ddysgyblion â'r Iesu, yr hwn sydd yn abl i'w nerthu dan demtasiwnau a

thrallodion y bywyd hwn, oblegid ei fod yn meddu ar ein nattur, ac wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud â ninnau. Yr ydym yn credu ei fod yn cydymdeimlo â ni ac yn ein nerthu yn ein hymdrech am y bywyd tragwyddol. Yr ydym yn credu fod ei ddioddefaint a'i farwolaeth boenus ar y groes yn ein tynnu ni atto; yn fyr, fod ei waed ef yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod. Yr ydym yn teimlo nad yw'r bedd ddim dychryn i ganlynwyr yr Iesu. Efe yw'r PEN, ac yn gymmaint a bod y pen wedi adgyfodi, credwn yr adgyfodir ninnau, yr aelodau hefyd. Edrychwn ar y bedd fel porth cyfyng trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fyned ar ein taith i'r bywyd mawr tragwyddol.

Dyma, yn fyr, y Crist ydym ni yn gredu ynddo; Crist y Testament Newydd; tywysog ein iechawdwriaeth.

Ar ol yr hyn a ddywedwyd, nid oes braidd eisiau sylwi ein bod yn credu mewn dydd barn a bywyd i ddôd, pryd y bydd i bawb dderbyn yn ol ei gweithredoed! Pa bryd y bydd dydd y farn, nid ydym yn gwybod. Mae llawer o honom yn credu fod y bywyd tragwyddol yn dechreu yn y bywyd hwn, a bod y ddau fywyd yn dal cyssylltiad agos a'u gilydd. Yr ydym yn credu mae peth i'w arswydo yn fwy na dim yw pechod, ac nas gall neb gyflawnu dim sydd yn fwy niweidiol iddo ei hun na throseddu yn erbyn Duw, yr hwn nid oes ganddo ddedwyddwch i roddi, ond i'r pur o galon, y rhai yn unig a'u gwelant ef.

Dyma, yn fyr, yw athrawiaethau ein heglwys ni, yr Undodiaid. Nid ydynt ond ychydig fel y gwelwch, ond y maent yn gynhwysfawr anghyffredin, yn cynnwys egwyddorion Efengyl Crist Iesu ein Harglwydd. Dyma'r ffydd mae llawer o offeiriaid a phregethwyr yr oes yn ddifrïo, ac yn ei cham-ddarlunio wrth eu gwrandawyr anwybodus. Duw a faddeuo iddynt! Dyma ffydd y dynion hynny a ddywedir eu bod yn dyfod at eu gilydd ar y Saboth i wawdio ac i ddirmygu Crist!! Er hyny, beiddiwn ddyweyd mai ffydd yr Apostol Paul ydoedd, ffydd ag sydd yn sylfaenedig ar gariad Duw yr hwn sydd yn Nghrist Iesu. Gobeithio y gallwn ddyweyd gyda'r Apostol na all dim ein gwahanu ni oddiwrthi. Teimlwn ei bod yn ddigon i wneyd pawb a gredant ynddi yn fwy na chonewerwyr ar y byd a'i holl drallodion, ac yn ddigon i'w nerthu pan yn wynebu angeu a'r byd tragwyddol. Gallu Duw ydyw er iechawdwriaeth i bob un ar y sydd yn credu. Diolch byth i'r TAD am dani!! Wrth ddiweddu, dymunwn ddyweyd wrth bawb o'n brodyr Undodaidd mai trysor ammhrisiadwy yw ein ffydd ag y mae Duw o'i gariad a'i fawr drugaredd wedi ei hymddiried i ni. Nid yn unig dylai ein hymddygiad fod bob amser yn deilwng o honi, y mae yn dysgwyl hefyd ar bawb o honom wneyd a allom i'w thaenu yn y byd.

ESPONIAD AR TIMOTHY III. 16.

"Mawr yw dirgelwch Duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd," &c.

MEWN trefn i esponio yr adnod ag y gofyn "Undodwr" esponiad arni (tudal. 154), dymunwn gynnyg i'w sylw y gwahanol ddarlleniadau o honi,

o ba rai y mae tri, ΟC, Ο, a $\overline{\Theta C}$, sef ΘΕΟΣ. Rhagenwau ydyw y ddau flaenaf, a thalfyriad o'r gair *Duw* ydyw yr olaf. Os mai y rhagenwau sydd iawn, y darlleniad fydd "Yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd;" ond os mai y talfyriad o'r gair Duw sydd iawn, y darlleniad priodol ydyw darlleniad y cyfeithiad Cymraeg cyffredin, sef "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Yn awr y mae tri maen prawf wrth ba rai y profir darlleniadau ammheuawl, sef y cyfeithiadau boreuaf, y llaw-ysgrifau boreuaf, a'r Tadau Apostolaidd, ynghyd a'r ysgrifenwyr Cristionogol boreuaf. O'r cyfeithiadau, y mwyaf pwysig ydyw yr hên Syriaeg, neu y Pshito, yr hwn a wnawd oddeutu, neu cyn diwedd yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol; ac mewn perthynas i law-ysgrifau, y rhai a ysgrifenwyd o'r bedwaredd i'r chweched ganrif ydyw y pwysiccaf.

Y mae tystiolaeth y Tadau Apostolaidd a'r Ysgrifenwyr Cristionogol boreuol yn bwysig, yn gymmaint a bod eu cyfeiriadau yn lled arwyddo i ni y llaw-ysgrifau a pha rai yr oeddynt hwy yn gyfarwydd; er hynny, nid ydym yn meddwl fod eu tystiolaeth hwy o gymmaint gwerth ag y myn rhai ei bod. Hawdd, gan hynny, feddyliem, fydd i "Undodwr" weled mai y cyfeithiadau boreuaf sydd yn cymmeryd y lle blaenaf mewn penderfynu darlleniadau ammheuawl, yn gymmaint a'u bod yn hynach na dim arall. Cymmer y llaw-ysgrifau yr ail le. Ysgrifenwyd y cyntaf o honynt ag sydd yn meddiant y byd Cristionogol yn awr, rywbryd o'r bedwarydd i'r bummed ganrif o'r cyfnod Cristionogol. Cymmer y Tadau Apostolaidd ac Ysgrifenwyr boreuddydd Cristionogaeth y trydydd lle.

Yn awr, cawn brofi darlleniad ammheuawl yr adnod dan sylw wrth y profion a nodwyd; ond cofied "Undodwr," nad ydym yn meddwl fod mor fanol ag ymdrechu profi pa un o'r rhagenwau a nodwyd sydd iawn. Os gallwn ddangos fod y tystiolaethau cryfaf o blaid un o'r ddau ragenw, ac nid o blaid y gair Duw, dichon y bydd hynny yn ddigonol; o'r hyn leiaf bydd yn gymmaint ag sydd yn angenrheidiol arnom i esponio yr adnod. I ddechreu gyda'r cyfeithiadau boreuaf, cawn fod yr hen Syriaeg, yr hen Ladin, yr hwn oedd yn gyffredin yn y drydedd ganrif, a'r Vulgate hefyd yr hwn sydd ddiwygiad ar y cyfeithiadau Lladin oedd yn meddiant yr eglwys cyn amser Jerome yr hwn oedd ei awdwr, o blaid rhagenw.

Y mae y cyfeithiad a wnawd i iaith yr Aipht isaf, sef y Memphytic, a'r cyfeithiad a wnawd i iaith yr Aipht uchaf sef y Sahidic, fel y barna Tischendorf, oddeutu y drydedd ganrif, o blaid un o'r ddau ragenw. Y mae Arabaeg Arpenius hefyd o'r un ochr, ond nid yw yr un o'r cyfeithiadau Arabaidd o bwys neillduol. Y mae tystiolaeth y cyfeithiadau boreuaf felly yn erbyn y gair Duw. O barthed i law-ysgrifau, y mae oddeutu chwech neu saith o law-ysgrifau o'r bedwaredd i'r chweched ganrif ar gael, o ba rai y mae llaw-ysgrif Mynydd Sinai a briodolir i'r bedwaredd ganrif, llaw-ysgrif Alexandria o'r bummed ganrif, llaw-ysgrif y Vatican neu lyfrgell y Pab o'r pedwaredd ganrif, llaw-ysgrif Ephrem o'r bummed, a llaw-ysgrif Clermont o'r chweched, a llaw-ysgrif Boernarian o'r nawfed ganrif, ac yn gymmaint a'i fod yn gopi o law-ysgrif lawer boreuach, y mae yn dra phwysig—y mae yr oll dros un o'r ddau ragenw.

Tros y gair "*Duw*" y mae llaw-ysgrif Rhydychen yr hon a briodolir i'r chweched ganrif. Hefyd, yr oll o'r llaw-ysgrifau sydd wedi eu hysgrifenu mewn llythrenau mân (*Cursive* MSS.), yr hynaf o ba rai a ysgrifenwyd

oddeutu y nawfed ganrif. O'r cyfeithiadau, y mae y cyfeithiad Sclavonaidd yr hwn a berthyn i'r nawfed ganrif, ac Arabaeg y Polyglott yn cynnwys y gair "*Duw*."

Bu dadl fawr yn mhlith dysgedigion ynghylch darlleniad llaw-ysgrif Alexandria, a llaw-ysgrif Ephrem; ond y mae yn awr wedi ei phenderfynu. Trwy edrych arnynt yn graff â'r llygad noeth ac yn enwedig â gwydrau cryfion, y mae yn hawdd canfod, meddir, fod y llinell uwchben a thrwy ganol y ΘC wedi eu gwneyd gan law ddiweddarach. Y mae gan hyny, y cyfeithiadau boreuaf a'r llaw-ysgrifau boreuaf yn cyduno yn eu tystiolaeth yn erbyn y gair *Duw* neu Θεος. Tystiolaeth y Tadau Apostolaidd ac Ysgrifenwyr Cristionogol boreu ydyw y mwyaf dyrys; ond y lleiaf ei gwerth. Y mae eu cyfeiriadau yn hynod o aneglur. Y gair *Duw* sydd yn awr yn yr oll o'u gweithiau, ond hawdd ydyw deall oddiwrth y dull yr esponiant yr adnod dan sylw mai adolygwyr eu gweithiau mewn amser diweddar sydd wedi ymdrechu eu cyfatteb i'r darlleniad cyffredin.

Peth arall a duedda i brofi mewn modd neillduol nad oedd ysgrifenwyr boreu Cristionogaeth yn gyfarwydd a'r darlleniad Θεος, ydyw, nad oeddynt un amser yn arfer yr adnod yma yn eu gwrth-ddadleuon â'r Ariaid, y Nestoriaid, ac eraill. Dywedodd yr ymherawdwr Julian nad oedd Paul mewn un man yn galw Crist yn Dduw. Gwrthwynebwyd ef gan Cyril, ond nid yw ef yn dwyn yr adnod yma yn mlaen fel prawf, yr hon fuasai yn berffaith addas pe gwyddai am y fath ddarlleniad. Y mae yn debygol felly nad oedd Cyril yn gwybod am yr adnod yma megis ag y mae yn y cyfeithiad cyffredin Cymraeg, ac ar yr un tir y gellir dweyd yr un peth am Clement, Origen, Athanasius, &c.

Dyna i "Undodwr" fraslun byr o'r prawf yn erbyn ac o blaid y darlleniad ammheuawl sydd yn yr adnod, oddiwrth ba un y gwelyn ddiau fod awgrym tystiolaeth o ochr un o'r ddau ragenw, ac mai llygriad ydyw y gair *Duw*. Gofynir pa fodd ac o ba le y daeth y llygriad? Attebwn mai y gair oc ydyw y gwreiddiol a bod o a oc wedi tarddu o hono, o herwydd fod y copiwyr cyntaf yn ei ystyried yn ddarlleniad anystwyth; ond yn ol rheol Bengel, "Proclivo scriptionis præstat arduum," yr hon sydd yn reol berffaith resymol, y darlleniadau mwyaf anystwyth ydyw y tebyccaf o fod yn gywir. Nid peth tebyg y buasai o yn cael ei newid i oc. Mwy annhebyg o lawer y buasai yn cael ei gyfnewid i ΘC. Yr oedd ysgrifenwyr y Testament Newydd, fel ag y prawf llawer o enghreifftiau, yn cymmeryd arnynt y gorchwyl o gyfaddasu y copiau a ysgrifenent i'r hyn a dybient hwy oedd iawn, yn enwedig mewn manau dyrys.

Ein barn, gan hynny, ydyw mai y darlleniad oc sydd iawn, a chyfeithwn y gair yn yr adnod dan sylw yr un fath ac y mae yn cael ei gyfeithu yn Col. i., 27—"Gogoniant golud y dirgelwch—yr hwn yw Crist ynoch chwi." Felly yma, "Yn ddiddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb yr hwn (sef dirgelwch duwioldeb) a amlygwyd mewn cnawd, a gyfiawnhawyd mewn yspryd, a welwyd gan genhadau, a bregethwyd yn mhlith y cenhedloedd, a gredwyd yn y byd, a dderbyniwyd yn ogoneddus."

Wrth "ddirgelwch Duwioldeb" y golyga yr Apostol y grefydd Grist-

ionogol, a phe caniateid i ni roddi y gair Cristionogaeth yn lle "duwioldeb," a darllen "Mawr yw dirgelwch Cristionogaeth," nid ydym yn meddwl y byddem yn mhell o'r hyn a olyga Paul. "Yr hwn a amlygwyd mewn cnawd," neu a amlygwyd mewn modd digon syml, a thrwy offerynau digon gwael. Dichon fod yma hefyd gyfeiriad neillduol at Grist, yr hwn oedd amlygydd y grefydd yma, a amlygwyd yn ei heffeithiau gogoneddus yn y nattur ddynol—yn Nghrist, "mewn cnawd." A phrofodd yspryd y grefydd yma ei gwirioneddolrwydd. Y cariad a annogai, y cyd-ymdeimlad a feithrinai, y rhinweddau a ffynent yn mha le bynnag y caffai ddylanwad, ydynt brawf o'i daioni. "A gyfiawnhawyd mewn Yspryd;" yspryd Cristionogaeth yn brawf o'i didwylledd. "A welwyd gan genhadau;" gwelwyd hi gan ddynion parod i fod yn genhadau iddi. Y mae y gair gwreiddiol a gyfeithir yma yn "weled" yn fwy cynwysfawr. Nid gweled â'u llygaid yn unig; ond hefyd â'u meddwl; a fyfyriwyd gan genhadau. "A bregethwyd yn mhlith y cenhedloedd, a gredwyd yn y byd," neu fel y cyfeitha rhai y geiriau yn ol ein barn ni yn ddigon priodol, "A sefydlwyd trwy dystiolaeth yn y byd." "A gafodd dderbyniad gogoneddus." Y mae Eph. vi. 15; 2 Tim. iv. 11, yn cyfiawnhau cyfeithiad y gwreiddiol yn "dderbyniwyd."

Dichon na feddwl "Undodwr" fod yr esponiad yma o'r adnod mor foddhaol ag y dymunai. O'r braidd yr ydym ni ein hunain yn cael ein boddloni ynddo, ond meddyliwn ei fod yn agos cystal, a gwell na llawer esponiad o'r adnod yma sydd ger bron y byd. Os ydym wedi gwneyd rhywbeth tuag at hyrwyddo "Undodwr" i wneyd ei feddwl i fyny o barthed i'r darlleniad priodol, yr ydym wedi gwneyd yr oll oeddym wedi ei gynllunio yn y dechreu, a dichon wedi gwneyd cymmaint ag a ddisgwyliai "Undodwr" oddiwrthym pan yn gofyn am esponiad.

I. T. W.

YCHYDIG O HANES PELAGIUS.

Modd bynnag, ni fu ei ragofal o un pwrpas iddo yn y pen draw; ond yn hytrach fel Paul yn ei ymweliad olaf a Jerusalem, ymddengys iddo fwyhau yn hytrach na darostwng cynddaredd ei elynion. Darfu i un o genadon Austin, o'r enw* Paul Orosius, ei ganlyn i Palestina, gyda llythyron cyhuddiadol a chri uchel o heresi. Yn herwydd hyny holwyd ef yn gyntaf mewn cyfarfod o Esgobion a gynnaliwyd yn Jerusalem, pryd y darllenwyd llythyr Austin gan gyfeithydd (gan fod y llythyr wedi cael ei ysgrifenu yn Lladin) a phan ofynwyd iddo os oedd y cyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn yn wir, dywedir iddo atteb yn frwd, ac yn benderfynol wrth feddwl am drahausder annioddefadwy a digywilydd y pencyffroydd (*demagogue*) traws-arglwyddiaethus uchod, "Pwy yw yr Austin hwn?" neu "Beth yw Austin i mi?" Am hyn darfu i rai ei geryddu yn llidus, gan ddywedyd fod unrhyw ddyn a ynganai un gair yn erbyn yr Esgob hwnw yn haeddu cael ei dorri allan, nid yn unig o'r gymanfa honno; ond

* Gwel Aikin's Biography, Article Orosius.

hefyd o'r holl eglwys, yr hyn sydd yn dangos, ar unwaith, y pwys aruthrol oeddynt yn osod ar eiriau Austin. Etto i gyd yr oedd gan Pelagius wir achos dros ddweyd, ac achwyn trwy ddyweyd "Beth yw Austin i mi?" Paham wyf yn cael fy holi a'm dwyn yn gaeth yn unig am feiddio meddwl a barnu drosof fy hun, neu gan fy mod yn dygwydd gwahaniaethu oddi wrtho ef mewn barn?

Ni wnawd dim yn mhellach yn y gymanfa hon, ond yn unig siarad am gyfeirio ei achos i farn Innocent Esgob Rhufain. Ymddengys ei fod yn gyfaill i'r Patriarch oedd yn llywyddu yno, a chan yr hwn yr oedd parch iddo (a phwy ryfedd pan ystyriom mae Innocent oedd ei enw).

Nis gallasai Orosius, ei gyhuddwr, yr hwn yn mhen ychydig o amser wedi'n a gwympodd i maes â'r Patriarch, amddiffyn ei gyhuddiadau gydag un egni; am na allai siarad yn yr iaith Roeg, ac am na allai aelodau y cynghor siarad yn Lladin.

Dygwyddodd hyn yn y flwyddyn 415, tua diwedd yr un flwyddyn cynnaliwyd cymanfa, neu gynghor arall, cynnwysedig o bedwar-ar-ddeg o Esgobion, yn Diospolis (Lydda y Testament Newydd) i ba le y gwyswyd, y profwyd, ac y rhyddhawyd Pelagius. Rhoddodd hyn dramgwydd o'r newydd i'w erlidwyr. Difenwyd y Patriarch dan yr esgus ei fod wedi dangos gormod o garedigrwydd tuag at y cyhuddedig, a chafodd y gymanfa ei enllibo, a galwyd hi gan Jerome, "Cymanfa druenus Diospolis."

Ysgrifenodd Austin hefyd at y Patriarch, ac ymdrechodd ei ddenu i edrych arno gyda digasedd, ac i roddi barn yn ei erbyn. Wedi hynny cynnaliwyd cymanfa elynol i'r *heretic* yn Carthage, ym mha le y condemniwyd ef, wrth gwrs, ac ysgrifenodd Austin a'i frodyr lythyr at Innocent, Esgob Rhufain, i'w berswadio i gyduno â'u dedryd hwy. Ysgrifenodd Pelagius hefyd at yr un Esgob mewn hunan-amddiffyniad, gan achwyn yn dost oblegid eu triniaeth arw ac anghyfiawn.

Bu farw y Pab Innocent yn fuan iawn wedi hyny, a chanlynwyd ef gan Zosimus, yr hwn a ymddengys oedd yn bur ffafriol i'r cyhuddedig, ac a'i rhyddhaodd ef a'i blaid; ac oherwydd hynny ysgrifenodd Austin lythyr at Zosimus, a chadwodd stŵr anghyffredin. Cymmerodd yr ymherawdwr yr un ochor, felly gwelodd Zosimus mae anghenrheidiol oedd tynu yn ol a gwrthdroi ei ddedryd o ryddhad, ac uno i gondemnio y Pelagiaid. Triniwyd hwynt yn arw, ac yn greulawn dros ben wedi hyny; siariadwyd am danynt fel ysbeilwyr, a chondemniwyd hwynt yn mhob parth, gan ddim llai na phedair ar hugain o Gymanfaoedd, y ddwyfed ar hugain o'r rhai a gynnaliwyd yn St. Alban, yn Mrydain, yn 429. Yr oedd yr ystorm wedi dyfod yn awr mor gynddeiriog, ac mor drwm ar y bobl yma fel ag y llwyr lethwyd hwynt yn fuan wedi hyn.

Pan ydym yn ystyried pa mor anghristionogol y triniwyd hwynt, a'r fath greulonderau a ddioddefasant, nis gallwm lai na chasglu eu bod wedi cael eu henllibo mewn modd didrugaredd, a'u bod yn llawer iawn gwell dynion na'u gwrthwynebwyr, ac ymddengys etto yn y dydd olaf eu bod yr mhell o fod yr anghenfilod dychrynllyd ag y mae y mwyafrif o haneswyr eglwysig a dadleuwyr uniongred wedi arfer eu gosod allan. Gyda golwg ar eu syniadau, nid yw yn perthyn i'r papyr hwn i'w cyfiawnhau na'u condemnio, ond yn unig nodi ffeithiau hanesyddol yn

deg ac yn gywir, heb ffafr na serch i unrhyw blaid, a chyda'r parch mwyaf cessegredig i'r gwirionedd.

Wedi i elynion Pelagius a'i blaid lwyddo i gyrhaedd eu hamcan bwriadedig, sef dystewi eu gelynion, troisant eu sylw at Brydain, yr hon a ystyrient fel magwraeth, neu lygad y ffynnon o'r hon y tarddodd yr heresi oeddynt yn gondemnio mor ddiseremoni, a danfonasant genadon drosodd o'r cyfandir i buro y wlad o'i llygredd tybiedig, ac i ddwyn y trigolion i fabwsiadu ffydd Rhufain a St. Austin. Nid yw yn ymddangos, modd bynag, mor belled ag ydym yn cael allan, fod unrhyw gyfnewidiad wedi cymeryd lle yn ffydd y Cristnogion Prydeinig, neu eu bod wedi bod un gradd yn wahanol i'r hyn oeddynt pan oedd Pelagius gartref yn eu plith, ac amser maith cyn hynny. Nid yw yn ymddangos ychwaith ei fod ef wedi mabwysiadu unrhyw syniadau newydd wedi cefnu ar ei wlad enedigol, o'r hyn leiaf, dim o nattur wrthdybiol, na'i fod wedi danfon dysgyblion yn ol i daenu syniadau newydd yn mhlith ei gyd-wladwyr, er fod y fath feddylddrychau wedi cael eu dal gan y cyffredinolrwydd o haneswyr Eglwysig, yn hen ac yn ddiweddar.

Y tebygolrwydd, gan hynny, yw fod syniadau crefyddol y Crist'nogion Prydeinig, a'u cydwladwr Pelagius, yr un peth, ac i fod unrhyw wahaniaeth sydd yn bod rhyngddynt ag athrawiaethau y Testament Newydd i gael ei priodoli, megys i naws o Dderwyddiaeth, yr hyn oedd eu crefydd, oblegid eu hir gydgyfeillach â phleidwyr yr hen sefydliad hwnw, llawer o'r cyfryw, o bryd i bryd, a gofleidiasant y grefydd Grist'nogol. Ca y casgliad hwn ei gadarnhau yn nerthol wrth gydmaru yr hyn sydd wedi cael ei ystyried yn brif gyfeiliornadau Pelagius, gyda'r hanesion mwyaf awdurdodol, a'r unig hanesion awdurdodol, ag sydd gennym o'r gyfundraeth Dderwyddol neu Farddol, y rhai sydd wedi cael eu rhoddi gan *Iolo Morganwg a William Owen, F.S.A. MHACI.

GALLU GWYRTHIOL CRIST.

Rhai rhesymau gan Mr. Belsham tros gredu fod gallu gwyrthiol Crist yn hollol ddarostyngedig i'w ewyllys.—Christian Reformer, 1834, *tud.* 303.

"I. Mae yn lled debygol, yn ol fy meddwl i, mai Duw yw'r unig weithredydd yn y greadigaeth. Ymegniad ei nerth ef sydd yn cyflawni pob ewyllysiad. Nid yw cyfryngiad y Duwdod, gan hynny, yn fwy angenrheidiol i gyflawni gwyrth, nac ydyw i gyflawniad unrhyw weithred gyffredin wirfoddol.

"II. Yr un peth mewn effaith yw, p'un a ydyw y wyrth yn cael ei chyflawni trwy awgrymiad uniongyrchol y Bod Dwyfol, neu ynte trwy fod meddwl y prophwyd yn cael ei ddysgyblu a'i addysgu yn y fath fodd fel na all ewyllysio byth i gyflawni gwyrth, ond ar achosion priodol.

"III. Os oedd Iesu Grist yn feddianol ar allu gwirfoddol *(voluntary)*

* Gwel Notes to Edward Williams's Poems, Vol. ii., and Introduction or Preface, to the Works of Llywarch Hen, a celebrated Bard of the Sixth Century.

i wneuthur gwyrthiau, canfyddaf ddyben pwysfawr i'r temtasiwn yn yr anialwch, sef i argraffu ar ei feddwl nad oedd iddo ddefnyddio y doniau gwyrthiol ar achosion anmhriodol, ac i ddybenion hunanlesiol. Ar bob cyfundraeth arall, ymddengys i mi fod y temtasiwn yn beth diddyben ac anegluradwy.

"IV. Rhoddwyd yr Yspryd i Grist yn ddifesur. Efe a ddywed fod y Mab yn bywhau y rhai a fynno, ac i fod y TAD yn gwrando arno bob amser, hynny yw, y meddai ar allu i gyflawni gwyrth pryd yr ewyllysiai. Cyflawnai weithredoedd nerthol gyda'r un awdurdod ag y traddodai ei ymadroddion. Dywed Pedr wrth y claf, "Y mae'r Iesu yn dy iachau di," ac wrth y cloff, "Yn enw Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia." Llefarai yr Iesu ei hun hefyd gydag awdurdod. "Cyfod," medd efe. Bryd arall, "Cyfod, cymmer dy wely i fynu, a dos i'th dy." "Lazarus, tyred allan."

"V. Nid ydwyf fi o'r farn fod Iesu Grist yn gwneuthur gwyrthiau trwy ei allu priodol ei hun, ond fel y cyffroa aelod pan fyddom yn ewyllysio, felly yn uniongyrchol, neu yn ganlynol i ewyllys ein Harglwydd, y celai'r wyrth ei chyflawni gan ymegniad y nerth Dwyfol. Fel hyn, yr oedd gwyrth yn weithred mor wirfoddol iddo ef ag yw i ni gyffroi aelod pan ewyllysiom.

"VI. Meddyliaf fod y dyb hon yn symmud rhai anhawsderau na ellid eu symmud yn rhwydd unrhyw ffordd arall. Credaf y meddai yr Iesu ar allu i waredu ei hun mewn modd gwyrthiol, pe y gwelasai yn addas i wneuthur hynny, o law ei elynion, ac o herwydd hyn yr oedd teilyngdod mawr yn ei waith yn ymostwng o'i wirfodd i gymmeryd ei ladd. Yn yr ystyr hyn "y dibrisiodd ei hun," gan fod yn ufudd hyd angeu. Ymddarostyngodd i'r annheilyngdod a'r creulonderau mwyaf, fel pe na buasai yn alluog i gynnorthwyo ei hun, pryd mewn gwirionedd y gallasai mewn amrantiad symmud ei hun o gyrhaedd ei elynion. Yr oedd ganddo feddiant i ddodi ei einioes i lawr ac yr oedd ganddo feddiant i'w chymmeryd drachefn. Nid oedd neb yn ei dwyn oddiarno—yr oedd efe yn ei dodi i lawr o hono ei hun."

O.Y.—Yr oedd Mr. Lindsey o'r un farn â Mr. Belsham ar y pwnc hwn; ond nid felly Dr. Watts a Dr. Priestley. Gwel bregethau Lindsey, Cyf. ii., tud. 473. Meddyliau diweddaf Dr. Watts, tud. 34. Priestley ar berson Crist, Cyf. ii., tud. 233.

MYFYRIWR.—Dywedasom ys tro yn ol am yr Iuddewon eu bod yn credu mewn *diafol* neu Satan fel bod neu berson, ac i fod Crist hefyd a'r Apostolion yn credu yn ei fodoliaeth. Sylwasom yn mhellach nad yw'r ffaith hon yn gwanhau, yn y mesur lleiaf, awdurdod Crist fel cenhadwr Dwyfol, nac ychwaith awdurdod yr Apostolion. Er fod ein Harglwydd Bendigedig yn credu mewn Satan, nid ydoedd o ran hynny, mwy nac o ran ei anwybodaeth o berthynas i ddydd y farn, yn llai ysbrydoledig yn y pethau a berthynent i fywyd ac anfarwoldeb a ddygwyd ganddo i oleuni trwy yr Efengyl. Nid ydyw yn canlyn, er hynny, oddiwrth y ffaith ei fod yn ysbrydoledig yn y pethau a berthynant i deyrnas Dduw, ei fod hefyd

tan ysbrydoliaeth y'nghylch y bod o Ddiafol, mwy nac y'nghylch achosion clefydau, neu mewn seryddiaeth, neu ryw gangenau eraill o athroniaeth. Anhawdd yw cael rhai i ganfod hyn. Yn gymmaint ag i fod Crist yn ysbrydoledig mewn un peth, nid ydynt yn canfod paham nad oedd felly mewn amrywiol o bethau eraill. Mae hyd yn oed rai Undodiaid deallus yn methu canfod pa fodd y gall hyn fod, am hynny, ymdrechant gyssoni adnodau yn y Testament Newydd lle y sonir am Satan a Diafol, â thybiau goleuach y'nghylch y gwir achos o *ddrwg* a'i ddybenion yn llywodraeth Duw. Lled gywraint, yn wir, yw'r naddu geiriau a scwaro adnodau sydd wedi bod yn ein plith, fel pe byddai eu meddwl i'w sefydlu yn hollol â'r geiriadur a'r grammadeg. Mae yn yr Ysgrythyrau, yn ddiddadl, brofion amlwg y credai Iuddewon yr hen oesoedd i ryw brif Angel a elwir Diafol a Satan wrthgilio o lywodraeth Duw, ac i engyl eraill ei ganlyn. Gosodasant i fyny, fel y dychymygid, lywodraeth o eiddo eu hunain i wrthwynebu, ac os yn bosibl, i faeddu llywodraeth Jehovah. Galwai yr Iuddewon lywodraeth y Diafol *teyrnas y tywyllwch* mewn cyferbyniad i lywodraeth Jehovah yr hon a alwent *teyrnas y goleuni*. Credid fod Satan a'u gyfeillion angylaidd yn crwydro ar hyd y ddaear, ac yn gwibio yn yr awyr (oblegid meddylid fod yr holl fyd isod dan eu llywodraeth, ond rhyw gyfran fechan o hono), i'r dyben o faeddu teyrnas eu gwrthwynebydd. Credid mai i deyrnas y tywyllwch y perthynai y cenhedloedd eilunaddolgar. Yr Iuddewon yn unig, yn y byd isod, oeddent ddeiliaid teyrnas y goleuni, am hynny *nefoedd* oedd eu trefn lywodraethol hwy, am mai i deyrnas y goleuni y perthynai. Dychymygid fod y ddwy deyrnas mewn ymrafael gwastadol, ond pan ddelai y Messiah y celai teyrnas Satan ei maeddu. Addefent eu bod hwy eu hunain, deiliaid teyrnas y goleuni, wedi dirywio, wedi colli ysbryd Dduw, ond credent yr adferid ef gan y Messiah yr hwn oedd nid yn unig i helaethu teyrnas nefoedd ar y ddaear, ond i lwyr-ddymchwelyd teyrnas y tywyllwch. Llefarai yr Apostolion yn fynych yn y dull hwn. Rhoddodd marwolaeth ac atgyfodiad Crist ergyd marwol i deyrnas Satan. Gwaith yr Apostolion a chenadon Crist yw gorphen y fuddugoliaeth ar dywysog y byd hwn, sef Satan, a dwyn teyrnasoedd y byd yn "eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef." Teyrnasoedd y byd, galluoedd Satan oeddent. Am hynny gwaith yr Apostolion oedd ymladd â byddinoedd Satan, y rhai a elwir "tywysogaethau," "awdurdodau," "bydol lywiawdwyr y tywyllwch," &c. Oblegid hynny, "milwyr" yw cenadon Crist, wedi "eu gwisgo â holl arfogaeth Duw," fel y gallent sefyll yn erbyn "cynllwynion y Diafol." Ond i ddyweyd y cyfan ar y pen hwn, angenrheidiol fyddai ysgrifenu llyfr. Gobeithio ydym fod yr hyn a nodasom yn ddigon i'ch gosod ar yr iawn ffordd i ddeall meddwl llawer o ymadroddion yn y Testament Newydd ag ydynt yn eglurhau ac yn cadarnhau y golygiadau ag ydym yn awr wedi osod yn fyr o'ch blaen. Yn gymmaint ag i fod bwriad gennych i fyned i'r weinidogaeth, bydd yn ofynol i chwi ddysgu trosglwyddo meddwl Crist a'r Apostolion, a draddodir yn fynych mewn iaith sydd unol â golygiadau eu hoes a'u cenedl, mewn synwyr ac iaith cyfattebol i olygiadau goleuach yr oes hon y'nghylch y drwg sydd yn y byd, y dechreuad o hono, a'i ddybenion daionus yn llywodraeth ddoeth a chariadlawn yr Anfeidrol Dad. I esbonio yr

ysgrythyrau yn iawn mae yn ofynol i ni *allu taflu ein hunain*, os dioddefwch yr ymadrodd, *i'r awdwyr*, nes y byddom yn meddwl â'u meddwl hwynt, yn gweled â'u llygaid, yn clywed â'u clystiau, yn teimlo fel y teimlent hwy, ac yn sefyll yn ei hamgylchiadau. Na throsglwyddwn hwynt i'n hoes ni, ond trosglwyddwn ein hunain, hyd ag y gallom, i'w gwlad a'u hoes hwy. Pe byddai dynion yn gwneuthur hyn, ni wrthodid fel chwedl rai pethau a adroddir, yn enwedig yn yr Hen Destament. Gofyn ein cyngor i chwi ar y pen hwn ddiwydrwydd a llafur nid bychan, ond y mae y wobrwy yn werth eich hymdrech mwyaf egniol.

Apostolion Crist yn ddarostyngedig i galedi neilldruol.—*Canys tybied wyf ddarfod i Ddduw ein dangos ni yr Apostolion diweddaf, fel rhai wedi ei bwrw i angeu.* I Cor. iv., 9. Dylasai y gair *diweddaf* gael ei gyfieithu *yn ddiweddaf*, fel y mae gan Wakefield ac eraill. Cyfeiriad sydd yma at ddull y Rhufeiniaid o ddwyn allan i'r chareufwrdd, yn ddiweddaf neu ar ddiwedd y dydd, i ymladd naill â'u gilydd neu â chreaduriaid rheibus, y sawl oeddent wedi eu harfaethu i farwolaeth. Nid oedd i'r trueiniaid hynny obaith dianc angeu. Pethau lled gyffredin oedd golygfaoedd o'r fath hyn, yn enwedig yn y talaethau, ac nid yw yn rhyfedd fod yr Apostol yn cyfeirio attynt. Yr oeddynt hwy, medd efe, cenadon Crist, wedi ei gosod, megys ar chwareufwrdd y byd, ac fel rhai, yn yr hwyr ar ddiwedd yr olygfa, ag oeddynt wedi eu dedfrydu i angeu. Mae'r geiriau yn hyawdl anghyffredin, ac yn addas i gyffroi tosturi dros rai oeddynt yn foddlon dyoddef marwolaeth dros enw'r Iesu, ac offrymu eu hunain tros les y byd.

Yr Apostol Ioan yn alltud yn Patmos—*Myfi Ioan. . . . oeddwn yn yr ynys a elwir Patmos am air Duw ac am dystiolaeth Iesu Grist.* Dat. i., 9. Yr oedd y gosp o alltudio dyn o'i wlad yn cael ei galw yn y gyfraith Rufeinig *capitis diminutio*, am fod y cyhuddedig yn cael ei ddifreinio, a'r ddinas neu'r dref yr oedd yn byw ynddi yn colli un pen. Cosp oedd hon a osodwyd yn lle un oedd henach a elwid *aquâ et igne interdicere*, neu gwahardd i ddyn ddwr a thân, sef anghenrheidiau bywyd. Yr oedd yn rhaid gan bynny i'r cospedig ymadael â'i wlad, a myned yn alltud i rhyw le yn mhell, am y gwaherddid i neb roddi iddo yn ei wlad ei hun yr hyn sydd yn ofynol i gynnal bywyd. *Disportatio* y gelwid y gosp a osodwyd ar Ioan. Yr oedd y gosp hon yn gynnwysedig mewn alltudio i ryw ynys, ac o alltudiaeth, ystyrid y *Disportatio* yn un o'r gwaethaf. Yr oedd nid yn unig meddianau y troseddwr yn cael eu fforffedu, ond yr oedd yntau yn cael ei rwymo, ei osod ar fwrdd llong tan ofal milwr, a'i gludo i ynys a enwid gan yr ymherawdwr. Yno y byddai yn rhaid iddo fyw tros weddill ei fywyd. Patmos oedd enw yr ynys y danfonwyd Ioan iddi. Mae hon yn mor yr Aegean, ac oddeutu pumtheg neu ugain milldir o amgylchedd, a phedwar ugain milldir yn y mor i'r de orllewinol o *Ephesus*. Gelwir hi yn awr *Patino* neu *Palmosa*. Mae yn llawn bryniau a mynyddau diffrwyth ac anghyfannedd, a dichon mae hyn oedd yr achos i'r Rhufeiniaid ei dewis i fod yn lle alltudiaeth. Nid oes arni ddim coed, ond digon o fanwydd a blodau. Cwrteithir yno *walnuts* a ffrwythau eraill mewn perllanoedd, a digon o haidd, maize, a gwenith, at gynnaliaeth y trigolion, y rhai ydynt oddeutu

chwech mil. Mae gwin Patmos gyda'r cryfaf a mwyaf blasus yn ynysoedd Groeg. Mae yno un porthladd lled dda, a thref ar ben bryn nid pell o'r porthladd. Naill ochr i'r dref y mae monachlog yn perthyn i'r Eglwys Roeg, ac yn agos yno y mae ogof yn yr hon, yn ol traddodiad, y canfu Ioan y gweledigaethau a ddesgrifia yn llyfr y Datguddiad, a lle hefyd yr ysgrifenodd hwynt. Y fonachlog a'r ogof ydynt mewn parch ac anrhydedd mawr gan y trigolion.

PLANT YR YSGOL SABOTHOL.

Cofiwch, blant, fod nodweddiadau bychain a disylw yn ein tymherau a'n tueddiadau pan yn ieuainc, yn cael effaith fawr ar ein holl fywyd. Ni feddyliwn yn awr fod dau fachgenyn yn dyfod i dref Boston yn America yr un diwrnod, a'u bod yn dechreu bywyd ynddi yr un pryd, gan ymgeisio am ei hanrhydedd a'u gwobrwyon. Meddyliwn eu bod wedi ei geni yn yr un gymmudogaeth ac yn agos yn yr un amgylchiadau; wedi bod yn cyd-chwareu ac yn cyd-ysgolia. Meddyliwn hefyd fod un o honynt, cynted ag y daeth i Boston, yn ymweled â'r dafarn, ac yn gwneuthur cyfeillion o'r rhai a fynychant lefydd o'r fath. Dywedwn fod y llall yn mynychu ty gweddi, yr ysgol Sabothol, y *mechanic institute*, ac yn ffurfio cyfeillach â'r sawl sydd â'u plesur mewn cwrteithio eu deall a gallnoed moesol ac ysbrydol yr enaid. Yn mhen amser, bydd gwahaniaeth mawr yn nghymmeriad y ddau fachgenyn hyn. Dichon y meddylia rhai o honoch nad ydyw o fawr bwys p'un o'r ddau fath lefydd ddewisa dyn ieuanc fel cyrchfa wirfoddol. Os meddyliwch felly, yr ydych yn camsynied yn ddirfawr.

Yn nhalaeth New York y mae man lle y tardda dwy nant fechan o ddwy ffynnon agos iawn i'w gilydd. Un o'r nentydd a reda i'r gogledd a'r llall i'r de. Mor agos at eu gilydd yw'r ddwy ffynnon fel yr ymddibyna ar awel wan p'un ai ymgymysgu wna dyferyn o wlaw â'r nant a reda i'r gogledd, neu â'r un i'r de. Teithia y nant ogleddol trwy afon Genesee, llyn Ontario, afon St. Lawrence, i Forgainc St. Lawrence, ac oddiyno i ddyfroedd oer yr Atlantic ogleddol. Mae'r nant arall, a reda i'r de, yn ymarllwys i'r afon Ohio, a chyda honno aiff i'r Mississipi, ac o'r diwedd i ddyfroedd twym Morgainc Mexico. Deliwch sylw, blant, mai awel wan sydd yn penderfynu cyfeiriad y dyferyn; felly hefyd y gwahaniaeth dirfawr a welir yn mywydau dynion; yr achos yw rhyw dueddiad, rhyw nwyd, ag sydd yn wan yn y plentyn, ond yn cynhyddu o radd i radd fel y mae'r bachgenyn yn cyrhaeddyd oedran gwr.

Ys llawer o flynyddau yn ol ganwyd yn yr un dalaeth ddau fachgen yn agos yn yr un amgylchiadau. Cawsant eu codi dros rai blynyddau gyda'i gilydd. Yr oedd amser yn mywydau y ddau hyn, fel pawb eraill, pryd na wnaethent ddrwg yn wybodus ac yn wirfoddol. Ond fel y tyfent i fynu, cawsent eu goddiweddu â themtasiwnau. Yr oedd tueddiadau natturiol y naill mor gryfed ag oeddynt yn y llall; ond cofiwch, blant, fod un o honynt yn wastad yn gwrthryfela yn eu herbyn, yn eu hattal rhag cael goruwchafiaeth arno, a'r llall yn ymollwng gyda hwynt, ac yn eu boddhau. Yr oedd un yn anufudd i'w rieni, yn afreolus, ymrysongar,

bob amser yn ymofyn ei eiddo eu hun, yn gybyddlyd a gwastraffus. Yr oedd y llall yn fachgen ufudd, caruaidd, a gofalus, ac yn wastad yn glynu wrth y gwir. Gallasech bob amser gredu ei air. Cymmerai ei ladd yn hytrach na dyweyd anwiredd. Ni adawai ychwaith i'w nwydau ei orchfygu. Wel, blwyddyn ar ol blwyddyn aeth heibio. Tyfasant i oedran gwyr, a phan ddywedwn wrthych pwy oeddynt, chwi addefwch fod gwahaniaeth dirfawr yn eu cymmeriadau. *Benedict Arnold* oedd un, yr hwn a werthodd ei hun i elynion ei wlad, ac a amcanodd fradychu rhyddid eu gyd-wladwyr am elw. Enw y llall oedd *George Washington*—enw sydd yn anwyl gan filoedd, ac a bâr mewn coffadwriaeth tra parhao'r byd. Iddo ef y mae America yn ddyledus am ei rhyddid. Ni fu neb erioed yn wrolach ar faes y frwydr, ac wedi iddo o'r diwedd arwain ei gydwladwyr i fuddugoliaeth, pan oedd mawredd bydol o fewn ei gyrhaedd, ni ddarfu i neb ymddwyn yn fwy hunan-ymwadol na Washington, yr hwn a arferai, pan yn fachgen, orchfygu temtasiwnau.

Yn awr, cofiwch i'r ddau ddyn hyn gychwyn ar daith bywyd gyda'u gilydd, heb un o honynt wedi gwneuthur drwg. Yn fuan cawsant eill dau eu hamgylchynu gan demtasiwnau. Eu gorchfygu wnai un ac ymostwng iddynt wnai'r llall. O blant anwyl! ystyriwch y gwahaniaeth dirfawr sydd i ganfod yn ngyrfa eu bywyd. Nid yw yn debyg fod tyngedfen neb o honoch chwi i fod yn Washington, i waredu eu wlad o gaethiwed, er hynny, gwyddom eich bod bob dydd yn cyfarfod a themtasiwnau naill a'i i anufuddhau i'ch rhieni, i roddi yr atteb serth, ac efallai i ddywedyd celwydd ac i dyngu a rhegu. Ceisiwch nerth gan eich Tad Nefol i orchfygu pob temtasiwn o'r fath. Nid oes neb yn ngolwg Duw a dynion yn fwy ffiaidd na thyngwyr a rhegwyr, a'r rhai hynny sydd yn berchen y tafod celwyddog a brwnt. Cofiwch, blant anwyl, fod eich defnyddioldeb a'ch dedwyddwch yn y byd yn ymddibynu i raddau helaeth ar eich hymddygiad yn awr pan yn ieuainc.

ATTEB I'R GOFYNIADAU YN TUD. 184.

1. Hezeciah. Dygodd adfyd ar Juda yn y flwyddyn 606 cyn Crist, trwy ei ffolineb yn dangos trysorau'r deml i weision Merodachbaladan, yn y flwyddyn 712 cyn Crist. Esai. xxxix., 1—7.

2. Job. Job ii., 9, 10.

3. Lot, pan ddewisodd wastadedd dyfradwy yr Iorddonen, Gen. xiii., 10.

4. Dafydd, pan rifodd Israel, 2 Sam. xxiv., 1—4.

5. Paul a Silas, Actau xvi., 25, 26. Jonah, Jonah ii., 1—10, a Hezeciah, Esai xxxviii., 1—5.

6. Paul pan weddiodd am waredigaeth oddiwrth y swmbwl yn y cnawd. 2 Cor. xii., 7—9.

7. Joseph yn yr Aipht, Gen. xlii., 10.

GOFYNIADAU.

1. Enwch frenin a ddigiodd wrth weledydd oherwydd iddo ei geryddu am wrthgilio.

2. Pwy frenin wrthgiliodd ar farwolaeth archoffeiriad?

3. Pwy edirfarhaodd y dydd y gwrthgiliodd?

4. Pwy wrthgiliod gan garu y byd presennol?
5. Rhoddwch engraifft o wrthgilio oherwydd gwrthod ffydd a chydwybod dda.
6. Rhoddwch engraift o wrthgilio oherwydd ymadael â chariad Duw.
7. Rhoddwch engraifft o wrthgilio oherwydd anufudd-dod i'r gwirionedd.
8. Dangoswch y gall gwrthgilio ganlyn balchder.
9. Dangoswch fod yn ddyledswydd arnom i geisio adferyd gwrthgilwyr.
11. Enwch rai addewidion o faddeuant i wrthgilwyr.

Adroddwch allan o lyfr 1 Cor. xiii.

Pa beth oedd yr achos i'r Apostol ysgrifenu mor hyawdl ar gariad?

Paham y mae cariad yn fwy na gobaith a ffydd?

Ceisiwch gan eich athrawon neu eich gweinidog egluro i chwi y rhesymau sydd gennym i gredu fod Duw.

Ei fod yn hollbresennol.

Ei fod yn hollwybodol.

Ei fod yn Fod daionus.

Ceisiwch ganddynt hefyd egluro i chwi y rhesymau paham yr ydym yn neillduo oddiwrth Eglwys y Llywodraeth.

Gan i fod gennych ddaearluniau (*maps*) yn awr yn yr ysgol, olrheiniwch y daith o Lundain trwy Gibraltar i Philippi lle yr ysgrifenodd yr Apostol ei lythyr at y Corinthiaid.

Pwy ydoedd y pedwar dyn a gariodd lythyr yr Apostol i Corinth?

Olrheiniwch eu taith o Philippi yno. A gadael iddynt gymmeryd llong yn Thessalonica, enwch yr ynysoedd ddarfu iddynt basio ar eu mordaith, a thros bwy dir, a sawl milldir, mae yn debyg iddynt gerdded?

Ysgolfeistr.—Ceisiwch gennym i ddangos pa fodd mae gwneuthur y gofyniad canlynol:—Meddylier fod tri dyn, Ifan, William, a John, yn trafaelu mewn cylch sydd $56\frac{1}{4}$ milldir o amgylchedd. Trafaela Ifan $3\frac{1}{3}$ milldir yr awr; William, $9\frac{1}{6}$; a John, $12\frac{1}{12}$. Pwy mor gynted y cyfarfydd y tri â'u gilydd yr ailwaith?

Os ydym yn cofio yn iawn, mae gofyniad cyffelyb i hwn yn *Hutton's Course of Mathematics, Ramsay's Edition*, yr hwn ofyniad a berodd i ni unwaith beth trwbl; ac nid yn unig i ni, ond i rai eraill mwy hyddysc mewn ymresymiadau o'r fath.

Mae yn amlwg yn ol eich gofyniad fod Ifan yn myned dros $\frac{8}{1\,3\,5}$ o'r amgylchedd mewn awr; William, $\frac{0\,0}{1\,3\,5}$ mewn awr; a John, $\frac{2\,9}{1\,3\,5}$. O ganlyniad, mae John yn ennill ar Ifan $\frac{7}{4\,5}$ o'r amgylchedd mewn awr, neu gymmaint â'r amgylchedd i gyd mewn $\frac{9\,0}{1\,4}$ awr. Felly hefyd am William; mae yntau yn ennill ar Ifan $\frac{1\,4}{1\,3\,5}$ o'r amgylchedd bob awr, neu yr holl amgylchedd mewn $\frac{1\,3\,5}{1\,4}$ awr. Cyfarfyddai William ag Ifan mewn un rhyw luosrif *(multiple)* o $\frac{1\,3\,5}{1\,4}$; ac felly John ag Ifan mewn unrhyw luosrif o $\frac{9\,0}{1\,4}$. Am hynny, cyferfydd y tri dyn yr ailwaith yn y lluosrif cyffredin lleiaf o'r ddau, sef $\frac{2\,7\,0}{1\,4}$, neu $19\frac{2}{7}$ awr, os nad ydym yn camsynied.

Meddylier fod y cylch yn 73 milldir, ac i fod Ifan yn trafaelu 5 milldir yr awr; William, 8; a John, 10. Mewn sawl awr y cyfarfyddant yr ailwaith?

Carwr Gwybodaeth.—Nid un hawdd i'w atteb yw eich gofyniad. Nid ydyw'r hânau neu'r strata sydd yn gwneyd i fynu grwstyn y ddaear, i'w cael yn mhob man ac yn rheolaidd. Yn gyffredin yr *igneous* yw'r iselaf. Ffurfiwyd y dosparth hwn, mae yn dra thebyg, gan wres. Mae yn cynnwys *granite*, *trap*, *syenite*, a *porphyry*. Nid ydyw'r dosparth yn cynnwys hânau. Uwchlaw y granite, y nesaf yw'r azoic, a elwir felly am nad oes ynddo weddillion creaduriaid. Cynnwys *gneiss*, *mica slate*, a'r *clay slate*. Mae llawer o'r ffurfiad hwn yn Sîr Gaer a Sîr Aberteifi. Yr un nesaf i'r Azoic yw yr un a elwir *protozoic*. Mae yn cynnwys y *Silurian*, *Devonian*, *Carboniferous*, a'r *Permian*. Mae yn y ffurfiad hwn weddillion math o bysgod a elwir *trachipods*, *polypods*, *cephalopods*, *trilobites*. Mae'r *trilobites* i'w gweled yn aml mewn creigiau oddeutu Llandilo. Y nesaf yw y deutozoic, neu ailgreaduriaeth. Yn hwn mae y *triassic* (*upper* neu *red sandstone*). Mae ôl traed adar, &c., i'w ganfod yn y ffurfiad hwn yn lled eglur. Y nesaf yw y trizoic. Sylwedd hwn yw'r *oolitic* neu wy-garreg. Cynnwys hwn yr holl hânau sydd rhwng yr *iron sand* oddi-uchod a'r marl coch yn y gwaelod. Rhenir y dosparth hwn i dair rhan: yr *oolite* uwchaf, yr un ganol, a'r un isaf. Yn y rhai hyn y ceir gweddillion ymlysgiaid anferthol o faintioli, y fath nad oes i'w cael ar y ddaear yn awr. Y nesaf yw'r tetrazoic. Cynnwys y dosparth hwn y *cretaceous*, a elwir felly am ei fod yn cynnwys sialc. Ffurfiwyd hwn rywbryd gan fyrddiynau o fan bryfed cyffelyb i'r *coral*. Gelwir hwynt gan *geologists*, *foraminifera*. Y nesaf yw y pentazoic neu y *tertiary strata*. Mae hwn yn ffurfiad diweddarach na'r un sialcaidd, ac yn gynnwysedig o sand a chlai, ac aneirif o weddillion creaduriaid mawr anghyffredin. Maent hwy hefyd, fel eraill o'u blaen, wedi gorfod rhoddi lle i greaduriaid mwy perffaith eu cynfansoddiad, er eu bod yn fwy perffaith na'r dô o'u blaen. Yr olaf yw'r hectazoic, neu'r *alluvial*. Gwneir y dosparth hwn i fynu o rafel, marl, clai, tywod, *brown coal*, *wood coal*, *bog iron ore*, a'r sylwedd a elwir *calcareous tufa*, neu fath o gerrig rhydd, mandyllog, a ffurfir gan waddodion ffynnonau calchaidd. Hon ydyw'r hân uwchaf ar wyneb y crwstyn. Geilw rhai hi *homoniferous*, am y cynnwysa weddillion o'r corph dynol. Nid oes un man ar wyneb y ddaear lle mae'r hânau hyn i'w gweled gyda'u gilydd, un ar y llall. Cyn diweddu, dymunwn sylwi (1) mai nid gwaith chwe' diwrnod yw y ddaear. (2) Nad oes dim sylfaen i'r dyb mai eppa, neu, efallai, bysgodyn, oedd ein cynddrychiolydd ar ddechreu ei yrfa, ac iddo gyfnewid yn raddol nes y daeth o'r diwedd yn ddyn! Yn olaf, gwyrth yn ddiau yw rhoddi bodolaeth i greadur newydd. Yn gymmaint, gan hynny, ag i fod *geology* yn dysgu i'r ddaear gael ei phoblogi gan wahanol greaduriaid—un dô ar ol y llall, a'r nesaf yn fwy perffaith na'r un o'i blaen, mae yn canlyn i'r Creawdwr wneyd gwyrthiau wedi y wyrth greadigol gyntaf. Os felly, paham na chredwn mai nid y wyrth olaf a wnaeth oedd creu dyn? Paham na chredwn ei fod yr un mor unol â'i ddethineb a'i gariad iddo gyfryngu, pan welo eisiau, yn y byd moesol, fel ag y mae yn sicr iddo wneuthur yn byd natturiol? Ni chwennychem weled y pwnc hwn yn cael ei drafod yn yr Ymofynydd. Gorphwys ar y sawl a wrthodant wyrthiau y Testament Newydd, gan ddal mai peth anmhossibl yw gwyrth, i symmud, os y

gallant, dystiolaeth *Geology* yn erbyn eu cyfundraeth. Dangos hon i Dduw gyfryngu mewn gwahanol oesau yn y byd natturiol; paham na wnai yr un modd yn y byd moesol, pan y gwelai ei ddoethineb fod yn addas i wneyd felly?

YSGRIFENYDDIAETH CENEDL Y CYMRY ER Y CYNOESAU.

Y MAE llawer o ddadleu wedi bod, o berthynas i pa bryd, a chan bwy, y dechreuwyd yr arfer o ysgrifenu, yn gystal a pha ddull a ddefnyddid i arwyddlunio neu gynnrychioli geiriau llafar. Cyfrifa rhai yr anrhydedd hwn i'r Aiphtiaid, rhai i'r Phoeniciaid, ac eraill a'i priodolant i'r Caldeaid. Tybia rhai dysgedigion fod y glorian yn gorbwyso yn ffafr yr Aipht; a diddadl yw eu bod hwy yn genedl ddysgedig, cyn cael o'r Hebreaid hanfodiad cenedlaethol, na'u sefydlu yn Nghanaan. Dyweda Curtius fod traddodiad yn hawlio yr anrhydedd hwn i'r Syriaid neu i'r Phoeniciaid; a a dyma ei eiriau:—"*Si famae libet credere, haec gens literas prima aut docuit aut didicit.*" Ystyr yr hyn yw, "os dylid rhoddi coel i'r hen ddywediad, y genedl hon (y Syriaid) oedd y cyntaf a ddysgodd lythyrenau (i ereill), neu a'u dysgodd (gan ereill.)" Y mae ychydig amwysedd yn yr ymadrodd uchod, o herwydd nas gellir ei droi i Gymraeg heb amgylchiaith, o herwydd na fedd ein hiaith ond un gair, sef *dysgu*, am y ddau air Lladin, *doceo* a *disco*, y rhai sydd yn gyf-ystyr â *teach* a *learn* yn y Seisneg. Ystyr y geiriau ond odid, yw, mai y Syriaid oedd y rhai cyntaf a ddysgasant lythyrenau cyn belled ag yr oedd yn wybodus i'r awdwr hwn, sef yr arferiad neu y gelfyddid o ysgrifenu eu meddyliau; ond pa un ai eu dyfeisio a wnaethant, neu eu derbyn gan ereill, nid oedd yn abl dywedyd.

Yr hyn y mae a fynom ni yma yn fwyaf neillduol âg ef, yw y cwestiwn, pa bryd a chan bwy y dysgodd Cenedl Cymru lythyrenau. Os gwir yw mai y Cimmeri (ynte y Kymry) y rhai a breswylient y rhan honno o'r Taurica Chersonesus y sydd yn gorwedd gerllaw y Llyn Maeotis neu Fôr Azoff, neu y Crimea, fel ei gelwir yn bresennol, oedd y Cymry gwreiddiol, y rhai a fudasant yn gyntaf i Asia, lle yr arferid yr iaith Roeg, nid annhebygol mai llythyrenau yr iaith honno oedd y rhai cyntaf a ddysgasant; ac y mae yr hanes a rydd Julius Cæsar o'r mater hwn yn cyduno â'r dybiaeth, ac afraid ychwanegu na wyddôm nemawr o hanes y Prydeiniaid neu gynfrodorion Prydain cyn ymweliad Cæsar â hi; a dyma ei eiriau ef ar y mater hwn,—gan gyfeirio at y Derwyddon, efe a ddywed, "Tybir ddarfod i'w dysgeidiaeth, yr hon a gaed allan yn Mrydain, gael ei throsglwyddo oddi yno i Gâl; ac yn awr y sawl a ewyllysiant ddeall yr urad hono yn fanylach, a ânt yno gan mwyaf er mwyn ei dysgu. Y mae y Derwyddon wedi arfer bod yn absennol o frwydrau; ac nid ydynt yn talu trethi fel ereill; ac y maent yn meddu hawl i beidio byth ymwneyd â rhyfel; ac y maent hefyd yn freinyddion oddiwrth bob peth arall Wedi eu cynhyrfu gan y fath ragorfreintiau, y mae llaweroedd yn dyfod dan eu dysgyblaeth; ac nid cyfreithlawn ychwaith eu treisio i ddyfod os na ddeuant o'u bodd eu hunain, ac y mae ereill yn cael eu danfon gan eu

rhieni a'u perthynasau agosaf. Dywedir eu bod yno yn dysgu rhifedi mawr o linellau barddonol; ac felly y mae rhai yn aros ugain mlynedd dan eu dysgyblaeth; ac nid cyfreithlawn ychwaith y credant draddodi y pethau hynny mewn ysgrifen; er, yn gyffredin, eu bod mewn amgylchiadau ereill, ac yn eu hachosion cyhoedd ac anghyhoedd, yn arferyd llythyrenau *Groegaidd.* Ymddengys i mi ddarfod iddynt sefydlu yr arfer yma oddiar ddau reswm; o herwydd na fynent i'w dysgyblion ymddiried i ysgrifeniadau, nac ychwaith i'w cyfrinachau gael eu dad-ddirgelu, wrth eu gosod mewn ysgrifen, ac yr oedd yn rhaid talu mwy o sylw i'w cof, yr hyn sydd yn gyffredin yn dygwydd i'r rhan fwyaf, fod iddynt, trwy ddefnyddio cymhorth ysgrifen, laesu yn eu diwydrwydd i ddysgu yn drywadl, ac esgeuluso eu cof." Y mae'n ffaith a gydnabyddir yn gyffredin, mai yn meddiant y Derwyddon yr oedd holl ddysgeidiaeth y Prydeiniaid a'r Galwys yr amser hwnnw; ac, er nad oeddent, yn ol tystiolaeth Cæsar, yn arfer traddodi eu cyfrinachau a'r pethau a berthynent i'w dysgyblaeth, mewn ysgrifen; etto, yr oeddynt yn arfer ysgrifen, a llythyrenau Groegaidd arferent. Ond pan oresgynwyd yr ynys gan y Rhufeiniaid, d'au i'r trigolion fabwysiadu eu harferion i raddau mawr, os nad, yn mhlith pethau ereill, eu dull o ysgrifenu.

Gwyddis nad yw llythyrenau y gwahanol ieithoedd yr un o ran eu ffurf neu eu llun. A phan ystyriom mai yr hen ddull o ysgrifenu oedd o'r ddeau i'r aswy, ac nid o'r aswy i'r ddeau, fel yr arferir yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r ieithoedd Ewropaidd, rhaid fod cryn wahaniaeth yn bod rhwng ffurf y llythyrenau perthynol i'r un iaith y pryd hwnw, rhagor y llall, a dirfawr wahaniaeth cydrhyngddynt fel ag y mae yn awr. Yr oedd yr egwyddorion o'r Lladin yn meddu ffurfiau gwahanol; megys y Lombardaidd, yn perthyn i ysgriflyfrau Itali; y Visgothaidd i'r eiddo Yspaen; y Saxonaidd i'r eiddo Lloegr; y Gâlaidd neu y Morovingaidd, i ysgriflyfrau Ffrainc; yr Almaenaidd, i'r eiddo y wlad hono. Y mae y rhan fwyaf o'r deddf-lyfrau Brythonaidd wedi eu hargraffu mewn llythyrenau Gothaidd,* ac y mae llawer o'r hen lyfrau wedi eu hargraffu mewn llythyrenau Italaidd. Yr argraffiadau cyntaf o'r Ysgrythyrau yn yr iaith Gymraeg ydynt mewn llythyrenau Gothaidd, neu *Germanaidd,* sef y llythyren ddu.

Pa fath lythyrenau a arferid gan y Cymry yn y cynfyd, ni byddai ond gwaith ofer i ni geisio penderfynu. A gadael mai llythyrenau Groegaidd a ddefnyddient, yn ol tystiolaeth Cæsar, nis gwyr neb pa fath oedd y cyfryw yr amser hwnnw. Os gwir yr hen draddodiad, mai tori llythyrenau â chyllell ar ddarnau o goed y byddai ein hynafiaid, cyn i bapyr na memrwn ddyfod yn adnabyddus iddynt, y mae yn dra thebygol y dewisent egwyddor ag ynddi y nifer leiaf o lythyrenau cylchol neu grynion, megys B, C, D, O, S; gan ddefnyddio yn hytrach y rhai union-linellol onglaidd, neu gornelog, megys A, E, H, I, L, M, N, T, V, W, am fod y rhai olaf yn llawer rhwyddach i'w tori yn y dull crybwylledig, na'r rhai blaenaf.

Tua phedwar-ugain mlynedd yn ol cyfododd cynhwrf nid bychan yn nghylch egwyddor a elwir *Coelbren y Beirdd,* am yr hon yr haerai

* Gwelsom hen lyfr yn llyfrfa y Doleu Cothi, wedi ei argraffu yn y dull hwn.

rhai mae yr anfarwol Iolo Morganwg ydoedd. Mynai Iolo mae ei llythyrenau hi oedd y rhai cyntaf a fu mewn arferiad gan y cyn-Frydeiniaid. Yr egwyddor hon a ymddangosodd mewn ffurf argraffedig yn Ngrammadeg y Dr. O. Pugh, yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1793, ac wedi hyny mewn amrywiol lyfrau Seisnig a Chymreig. Ond nid hir wedi ei hymddangosiad y buwyd heb godi gwrthddadleuon yn ei herbyn, gan ei hystyried yn newydd-beth mewn llênyddiaeth Gymreig. Ond dywedir iddi gael ei chrybwyll yn ysgrifeniadau Llewelyn Sion o Langewydd, yn Sir Forganwg, yr hwn oedd fardd enwog yn amser y frenines Elizabeth, a'r hwn a bennodwyd i'r gorchwyl o gynnull a chorphori elfenau sylfaenol Bardduas Cymru, yn ol traddodiadau gorsedd Morganwg, ar yr hon yr oedd efe yn llywydd yn y flwyddyn 1580. Amryw o wrthwynebwyr egwyddor Coelbren y Beirdd a ddangosent duedd i'w thadogi ar yr hyglod fardd Iolo Morganwg; ond nis gwyddom pa fodd i gyssoni y dybiaeth hon â'r ffaith fod Llywelyn Sion wedi marw yn mhell cyn geni yr hynafiaethydd Iolo. Nid oes dim yn anhygoel yn y tybiad mai efe fu yn offerynol i'w dwyn i sylw mewn amseroedd diweddar; ond nid yw hynny yn profi mai efe oedd ei dyfeisiwr. Mewn amddiffyniad iddo ei hun yn yr achos hwn, efe a ddywed yn un o'i lythyrau at y Parch. Walter Davies (*Gwallter Mechain*), "Ni fynwn er yr holl fyd, ddwyn yn mlaen ddim o'r fath yma, ddim a roddai achos i'm rhestru gyda Galpid gelwydd teg a'i blaid. Mi a welais bob un, neu yn agos y cwbl, o Goelbren y Beirdd yn gymmysgedig â rhai Saxonaidd (hyny yw, cyn Frydeinaidd), ar hen groesau a chof-feini ereill, ac y mae Camden wedi rhoddi un nodedig, o swydd York, yr hon sydd bron yn gwbl yn y llythyrenau hynny."

Dywedir mai yr egwyddor debycaf i Goelbren y Beirdd, y gwyddis yn awr am dani, yw yr *Etruscan;* ac ar y matter y sylwodd Iolo fel y canlyn:—"Yn ddiweddar mi a welais y llythyrenau henafiaethol a elwir yr *Etruscan*, ac yr oeddynt oll, oddigerth dwy neu dair, yn uniawn yr un fath a Choelbren y Beirdd. Yr Etruscaid oeddynt gyn-drigolion yr Ital, pobl Geltaidd; a'u llythyrenau hwy oedd y rhai cyntaf a adnabyddid yn mysg y Rhufeiniaid. Etto, y mae yn beth tra nodedig, pan y darfu i'r Rhufeiniaid gyntaf oresgyn Prydain, yr oedd y llythyrenau hynny wedi myned mor anhysbus, fel y dywed un ysgrifenydd Rhufeinig, fod yn beth anhawdd cael dyn yn Rufain a fedrai ddarllen y llythyrenau ar feddau y Scipios, na neb yn alluog i ddarllen y cerflythyrenau Etruscaidd hynaf. Wrth ystyried y pethau hyn, y mae yn rhaid penderfynu na ddygwyd y llythyrenau hynny i Frydain gan y Rhufeiniaid, llythyrenau y rhai pan y goresgynasant ni, oeddynt yr un rhai ag'yn bresennol. Y mae yn hysbys nad yw y llythyrenau Groeg presennol ddim yr un fath â'r rhai Groegaidd gynt. Y llythyrenau Ewropaidd hynaf y gwyddis am danynt, yw yr eiddo y Pelasgiaid, yr Etenaciaid, y Runic. A phan ddaeth y Rhufeiniaid gyntaf i Frydain, ac heb weled yma lyfrau wedi eu hargraffu neu eu hysgrifenu ar femrwn, papyrus, neu'r fath, yr oedd yn beth naturiol ddigon iddynt haeru mai cenedl anllythyrenog oedd y Prydeiniaid; ac etto, gallai fod ganddynt lyfrau wedi eu tori ar goed yn null Coelbren y Beirdd, dull na feddylai dyeithriaid ddim am dano y rhawg, tra nad oedd ganddynt un dychymyg am y fath beth yn flaenorol." Oddiwrth y cwbl a ddywedwyd uchod, gallwn gasglu y pethau canlynol:—

1. Fod Cenedl y Cymry yn adnabyddus â llythyrenau cyn i Cæsar gyntaf ymweled â'r ynys. Pa fath lythyrenau oeddynt sydd ammhosibl ei benderfynu. Dywed Cæsar mai Groegaidd oeddynt; ond gallasent fod yn rhai Pelasgaidd, neu Etruscaidd, os oedd yr olaf wedi myned yn anhysbys i'r gwyr Rhufeinig.

2. Mai nid y Rhufeiniaid a ddysgodd y gelfyddid o ysgrifenu i'r hen Brydeiniaid. Dichon iddynt ddwyn i'w plith yr arferiad o ddefnyddio papyrus neu femrwn, yr hyn yn ddiau, nid oedd yn adnabyddus iddynt hwy yn flaenorol.

3. Fod y llythyrenau a arferir yn bresennol gan Genedloedd Ewrop Ogleddol, megys y Cymry, y Saison, y Ffrancod, yr Italiaid, yr Yspaeniaid, yr Isellmyn, o wreiddyn Groeg Ionaidd, yr hon a roddes ddechreuad i'r Lladin Arcadaidd, yr hen Geltaidd, Gothaidd; ac o'r Ladin eilwaith y tarddodd y Lombardaidd, y Saxonaidd, y Visigothaidd, y rhai a roisant ddechreuad i'r llythyrenau Rhufeinaidd ac Italaidd sydd yn awr mewn arferiad. B.

O.Y.—Dilys pan y daw allan o'r wasg y llyfr hwnw, "Llyfryddiaeth y Cymry" ys ef, llafur oes y diweddar hynafiaethydd Gwilym Lleyn, y bydd ynddo lawer o hanes y *peithynen*, hyd yn hyn nad oes ond yr hynafiaethwyr yn gwybod braidd i ddim am dani.

Y Gwyddelod.—Y mae traddodiad hyd y dydd heddyw ym mysg y werin bobl (er nad ydys yn edrych ar hyny ond megys hen chwedl) fod y Gwyddelod, ryw bryd yn yr amseroedd gynt, yn frodorion Cymru a Lloegr; ond y mae yn ddilys ddigon eu bod hwy, megys nad oeddem ni a hwythau ar y cyntaf ond un genedl. Ac yn wir, prin y gall un dybied amgen ond o'r un dorllwyth y daeth y ddwy genedl allan, sef y Cymry a'r Gwyddelod, yr hwn a ystyrio y lluaws geiriau sydd o'r un ystyr gyda ni a hwythau. A phwy bynag a ddarlleno y Gramadeg Gwyddelaeg, a wel fod tueddiad a natur eu hiaith hwy yn gofyn newid llythyrenau yn nechreu'r geiriau, yn gwbl gysson â'r Gymraeg. Pwy bynag a ddeil sylw ar lawer o hen enwau afonydd a mynyddoedd drwy y deyrnas hon, ni chaiff efe le i ammheu nad y Gwyddelod oedd y trigolion pan roddwyd yr enwau hyny arnynt. Fe ŵyr pawb mai enw afon [illegible] yng Nghymru yw *Wysg;* ac nid yw *Conwy, Tywi, Wy,* ond gwahan enwau at yr un ystyr; ïe, enw yr afon benaf yn y deyrnas yw *Tafwys,** hyny yw, cydiad *Taf* ac *Wysg* yng nghyd. Ni ŵyr neb gyda ni beth yw ystyr y gair; ond nid oes gan Wyddelod yr Iwerddon un gair arall am ddwfr, ond *Uisg*; ac megys y mae'r geiriau *Coom, Dor, Stour, Tam, Dove, Avon,* yn Lloegr, yn cyfaddef nad ynt amgen na'r geiriau Cymreig, *Cwm, Dwr, Ys-dwr, Taf, Dyfi,* ac *Afon;* a thrwy hyny yn dangos mai y Cymry oedd yr hen frodorion; felly y mae'r geiriau *Wysg, Llough, Cynwy, Ban, Drum, Llechlia,* ac amryw ereill, yn dangos fod y Gwyddelod yn preswylio gynt hyd wyneb y wlad hon; canys ystyr y geiriau yn ein hiaith ni ydyw, *Dwfr, Llyn, Prif-afon, Mynydd uchel, Cefn, Maen llwyd.* Pwy fyth a ŵyr achos am alw *Cut defaid* yn *Gorlan,* oni ŵyr hefyd fod y Gwyddelod yn galw dafad yn eu hiaith hwy yn *caor?* neu

* Thamesis. Nid yw *Ask, Esk, Ax, Ex* (enwau bagad o afonydd Lloegr), ond yr un peth.

pa ham yr ydys yn galw gwartheg godro yn wartheg *Blithion*, oni ŵyr hefyd mai *Blithuin* yw godro yn yr iaith hono?† Ni all neb ddeall y Gymraeg yn iawn heb y Wyddelaeg. Pwy a ddeallai ystyr *Traeth Saith*, yn Sir Aberteifi, oni ddeall Wyddelaeg hefyd? canys ystyr y gair yw *Traeth bas*. *Aithon* yw enw afon yn Sir Faesyfed: y gair Gwyddelaeg yw *Aithafon*, h. y., afon redegog wyllt. *Taf* sydd air Gwyddelig, ac yn meddwl *dôf*.—*Drych y prif Oesoedd.*

Cyfenwau Cymreig.—Cyn amser y frenhines Elizabeth, yr oedd cyfenwau y Cymry yn cynnwys achau hirion, megys Hywel ab Iorwerth ab Ifan, ac felly yn mlaen am saith neu wyth o genedlaethau. Yr oedd y cyfreithwyr a'r ustusiaid Seisnig a ddenent i Gymru i weinyddu y gyfraith, yn myned yn gynddeiriog wyllt yn erbyn yr achau hyn, gan na fedrent hwy, druein iaid annhymig, ddim seinio yr *ch* a'r *ll*, na chofio yr enwau pereidd-sain oeddynt yn dolenu y gadwyn. Dywedir fod rhyw ustus yn amser Harri VIII., a flinid yn fynych gan yr achau hyn, wedi apelio at y Cymry am iddynt fabwysiadu rhyw gynllun tuag at gwtogi eu henwau, ac i amryw a dduddhau i'w gais. Ond yn yr Eisteddfod fawr a gynaliwyd yn Nghaerwys, yn 1568, trwy orchymyn a dirprwyaeth y frenhines Elizabeth, rhoddwyd gorchymyn ar y Cymry gymeryd ac ymarfer â chyfenwau teuluaidd, cyffelyb i gyfenwau deiliaid eraill ei Mawrhydi: ac fod i'r Beirdd a'r gwyr wrth gerdd dafod, gynghori a threfnu a gweled hyny; ac o hyny allan y Cymry a gymerasant gyfenwau gwahanol, rhai herwydd eu tadau, ereill yn ol fel eu gelwid cyn hyny, megys Ehs Goch a Sion Wyn; ac ereill oddiwrth y rhanau o'r wlad a drigianent, megys Hugh Gonwy, a William Llyn. A chyn hyny nid oedd gan y Cymry gyfenwau, eithr dangos âch a bonedd a wnelid; a'r lle ni cheid y cyfryw, dodid damwain o enw fel y cydnabyddid ef yn llys y Brenin, ac am hyny y dywedir *llysenw*. A'r dull cyfreithiol a gymerwyd i gadarnhau yr enwau hyn oedd eu rhoddi yn ysgrifenedig ar bapyr i glarcod y Sesiynau, a cheiniog gyda hwynt, ac enw y drigfan; yna dodid yr enw ar *register* y llys, ac o hyny allan adwaenid y person a'i wehelyth dros byth wrth y cyfenw hwnw.—"Cymru a fu."

Ci Sectaraidd.—Yn y *Nantuchet Inquirer*, ys amser yn ol, dywed gohebydd fod gan gyfaill iddo gi ag sydd yn dangos y medda ar ddewisiadau Sectaraidd nid annheilwng o'r dall-bleidwyr sydd yn cerdded ar ddwytroed. Pan fyddo cloch yr Episcopahaid yn canu, nda'r ci yn oernadus, a chyfarth yn lled gyflym pan fyddo cloch eglwys y Bedyddwyr yn annerch ei glystiau; ond cynted ag y clywo gloch eglwys yr Undodiaid, tawela y ci gan siglo ei gynffon. Clysom ddyweyd fod yn arfer ys triugain mlynedd yn ol yn un o'n capeli yng Nghymru i osod dyn wrth y drws i warchod y cwn. Arfogai ei hun at y gwaith â "chi pren," sef math o *binshwrn* a chaesau lled hir iddo, a dannedd o *glwps*. Yr oedd yr oferyn yn ddychryn i gwn yr holl gymydogaeth. Mentrwn ddyweyd pe buasai ci Nantuchet wedi cael ond un *pinshad* gan yr heu borthor hwnnw, na siglai ddim o'i gynffon pan fyddai y gloch Undodaidd yn toncian, oni byddai o lawenydd wrth feddwl ei fod yn ddigon pell.

---

* Vid. Luid. Præf. ad Archæol.

[Hysbysir i'r ddarllenydd na welodd Mr. Jenkins rai o'r Englynion, &c., canlynol, am mai attom ni y danfonwyd hwynt. Nid ydyw ef na ninnau yn attebol am na'r mesur na'r synwyr—neb ond yr awdwyr eu hunain].

PENNILLION I DDYFFRYN AERON.

Paradwysaidd ddyffryn Aeron,
Gorchuddiedig gan goed îrion,
Ble'r anadla'r per awelon,
O mor wiwdeg yw dy wedd.

Yn yr haf mor hoenus ddedwydd,
Rhodio dros dy dawel ddolydd,
Darllen llon bennillion prydydd,
Yng nghylch cariad merch, neu'r cledd.

Nid oes man ar wyneb daear,
Ar a welais yn fwy hawddgar,
Yma natur wêna yn swyngar,
Gan breswylio'n hy' mewn hedd.

Yma gwisga'i gwisgoedd gwychion,
Er mwyn denu doniau dynion,
Yma can y mân gantorion,
Yma cant hyfrydol wledd.

Paradwysaidd ddyffryn Aeron,
Hyfryd fan, wrth fodd fy nghalon,
Ynddot fyw buaswn foddlon,
Nes cael myn'd o'r byd i'r bedd.

J. F. J.

PEDWAR ENGLYN AR JONAH YN CAEL EI ANFON I NINEFE.

Duw Ion anfonodd Jona',—anufudd,
I Ninefe fawrdra;
Hefyd, ar gais Jehofa',
Nid âi i'r daith, y dyn da.

Erglyw! o wydd yr Arglwydd,—e giliai,
O'r golwg yn ebrwydd,
O'i flaen 'roedd ing ac aflwydd,
A llydan fôr, heb ddim llwydd.

Gwyrth hynod, bol pysgodyn—a gloddiwyd
Iddo'n gladdfa sydyn;
Is ffrynig donau brigwyn,
'N ddiau, am dridian bu'r dyn.

Ond, cofiodd y Duw cyfion,—ei weddi
Ydoedd daer a phrydlon;
Yn nghanol ei angenion
Anfonai lef, i'r nef at *Ion*.

Llandybie. RHYDDERCH.

CROESGYNIAD (ACROSTIC) I CARADAWC,*

C ymro gwladgarol, Tywysog oedd gynt,
A r wlad yr Esyllwyr medd hanes ei hynt;
R hyfelwr dewr ydoedd a chadarn i'r gâd,
A berthai ei fywyd dros ryddid ei wlad;
D rwy frad ysgelerdra anfonwyd ê'n gaeth,
A thyn mewn cadwynau i Rhufain yr aeth,
W edi hyn, y dadleuodd ei achos heb ludd,
C laudius† a doddodd, fe'i rhoddodd yn rhydd.

EIDDIL CYNON.

"CEISIWN GYNYDDU YN DDOETHACH O HYD."

Mewn breuddwyd y gwelais, tra'n dawel y cysgwn,
Rhyw drysor nas gallaf fyth dd'wedyd ei werth;
Ond pan y dihunais darfyddodd, nis meddwn
Yr aur f'asai imi bryd hyny yn nerth.
Er tebyg yw bywyd i freuddwyd a'i bleser,
'Rhwn osod rhyw fwyniant byfrydol o'n blân,
Hyd nes y dihunwn a gwelwn ei waelder,
Ac yna yn ebrwydd, newidiwn ein grân.
Ond O! na fydded i neb ymofidio,
Er nad ydyw bywyd i aros un pryd,
Os am wir ddoethined y gwnawn ni ymchwilio
A "cheisio cynyddu yn ddoethach o hyd."

Rhyw gornant yn chwyddo nes daethai yn afon
A welais tra'n araf y rhedai ei hynt,
Nes collais ei llifiad yn nghymysc â'r eigion,
Ac felly nis gallwn ei chanfod fel cynt.
Tua mor tragwyddoldeb y gwelir fod bywyd,
Fel afon, yn rhedeg ei yrfa i lawr,
Fe gymysc ei ddyfroedd ag ef, ym mhen ennyd,
Ac yna nis gwelir ei lifiad yn awr.
Ond O! na fydded i neb ymofidio,
Er nad ydyw bywyd yn aros un pryd,
Os am wir ddoethineb y gwnawn ni ymchwilio
A "cheisio cynyddu yn ddoethach o hyd."

Yf, bwyta, bydd lawen, yw pregeth gorhynod
Y byd, gan dy annog fod amser yn ol;
Ond cynghor Doethineb yw gwylia, bydd barod,
Mae'th ddyddiau'n ansicr, a phaid bod yn ffol,
Ym mlaen aiff y byd a'i bleser ddiflana,
Un mwyniant ni fydd pan daw'r bywyd i ben;
Ond cynghor Doethineb, bryd hyn, a'u harweina
At newydd bleserau a mwyniant disen.
Yn sicr a buan gwna'r bywyd hwn ddarfod
Fel breuddwyd disylwedd, gan rywun o'r byd,
Ond dedwydd fodolaeth am byth ddaw gyfarfod
'Rhwn "geisiodd gynyddu yn ddoethach o hyd."

ARCTURUS.

---

* Rhanwyd y wobr am yr uchod rhwng yr Awdwr a Dab Owen, Llanelli, ewydd Gaerfyrddin, yn Eisteddfod y "Carw Coch," 1867.

†. Ymerawdwr Rhufain. Gwel Hanes Cymru, gan Carnuhanawc, tud. 74.

Bwrdd y Golygydd.—Dealler fod gan G. Gwenog, yn ei lyfrgell fwrdd, wedi ei neillduo i ddal gwaith prydyddawl ar gyfer yr Ymofynydd, i'w olygu.

Bwrdd llawn, bwrdd uniawn barddoniaeth,—bwrdd crwn,
Bwrdd cryno ei feirniadaeth;
Tra hwyliog, try wehiliaeth,
Yn un pwn i'w gadw'n gaeth.

Bwrdd glân, â'i glorian egluro—wir rawn,
O'r us, gan eu pwyso;
Rhydd ambell gnoc i docio,
Y *gwael* ffwrdd pan gweliff o.

O bydd rhigymydd go wamal,—a'i gân,
Yn gynnyrch anwadal;
'Rwyf fi yn dyst, braidd cystal,
Tan ei scriw'n chwilfriw 'fe'i chwâl.

Ond awenydd iawn, adwaena,—ei thân,
Tra thyner a nodda,
Yn ddawnus, ei dyddana,
A'r lle harddaf, goraf ga.

B——. D. J.

Un bore, tra'n aros i Mr. Williams (Carw Coch) gyfodi o'r gwely, ar fore tesog yn Mehefin, 1863, a minau ar lawr er's awr, anfonais y ganlyn atto:—

Os wyt ti heb farw, y "Carw" cwyd,—un waith
B'o Nathan fel *breuddwyd*,
Neu *swn* llesg, yn ceisio 'n llwyd,
Greu englyn dan dy gronglwyd.

A'i gwladwr gwely ydwyd?—Ow! ymswyn
Mae'n amser boreufwyd,—
Ni wedd i fardd nawdd o fwyd
Ar ei wâl, doed i'r aelwyd.

Y Cymro praff, camrau prophwyd—a dront
Gyda'r wawr yn fêl-fwyd,—
Clyw'r adar, a'i clauar ydwyd?
Am naw o'r gloch, mae'n oer y glwyd.

Cam esgus yw cwsg, ymysgwyd—ddoeth fardd
O'th fwth, yn ddiarswyd—
Boed dy wyneb di anwyd
O bau'r gwâl, a bore gwyd.

Câr i fwg wyt—gwr a fagwyd—gyda hên
Gwdihw Cwm Cawlwyd,—
Bore godwr, brâg ydwyd—
Rhoc o aer y breci wyd.

Un waith, O fardd, twng i'th forddwyd—a rheg
Rhagot y cwsg briglwyd—
Na chaiff mwy'r gofwy gafwyd,
Attal aidd bardd y got lwyd.

Y CWRDD BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd y Cwrdd Blynyddol eleni yn y Cwmbach, ger Aberdâr, nos Fercher a dydd Iau, y cyntaf a'r ail o Orphenaf. Dechreuodd y cyfarfod cyntaf am saith yn yr hwyr, pryd y darllenodd ac y gweddiodd D. Davies (Myfyriwr), a phregethwyd gan Rees (Rhydygwin) a Thomas (Pantydefaid), y cyntaf oddiwrth Luc. v. 31, a'r llall Matt. v. 48. Boreu dydd Iau yr oedd llawer o bellenigion yn bresennol. Dechreuodd y Proff. Evans a phregethodd y Proff. Hunter yn Seisneg, a Thomas (Llwyn) ar ei ol yn y Gymraeg. Testun Proff. Hunter oedd Mat. xxii. 42; testun Thomas, Mat. iv. 1—11, sef Temtasiwn Crist. Gredwn y byddai y bregeth yma yn dderbyniol iawn gan ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Pregeth wnaeth Mr. Wm. Thomas yn absennoldeb Davies (Alltyplacca), yr hwn oedd y pregethwr appwyntiedig. Pwngc y Gynnadledd oedd "Glynwch yn eich proffes. Wedi galw Lloyd, gweinidog y lle, i'r gadair, llefarwyd arno gan Thomas (Llwyn), Lloyd (Nottage), a Proff. Hunter. Yr oedd gwahaniaeth barn gyd a golwg ar briodoldeb y geiriau fel pwngc cynnadledd, ond nid oes le, goeliwn, i wahaniaeth barn gyda golwg ar bwysfawrogrwydd y cyngor i bawb o bob enwad. Y mae eisiau i Undodiaid i ddysgu hyn. Mae llawer o honynt nad ydynt yn gwybod y wers yn rhy dda. Terfynwyd cyfarfod y boreu trwy weddi gan Williams (Cefncoed). *Business meeting* ydoedd cyfarfod y prydnawn. Darllenwyd cyfrifon yr Hen Gymdeithas Lyfrau. Ceir y manylion etto. Penderfynwyd fod rhifynau y diweddar Barch. John James, o Gellyonen, ar yr Haeddiant i gael eu parotoi a'u dwyn allan o'r wasg mor gynted ag y byddo modd gan Mr. Thomas, Pantydefaid. Dygir un rhifyn allan ar y tro, a gobeithir y bydd ar bawb darllenwyr yr YMOFYNYDD awydd ei weled. Wedi hyn, darllenwyd cyfrifon Cymdeithas y Weinidogaeth Undodaidd yng Nghymru. Ceir eu gweled trwy y wasg yn fuan. Yn yr hwyr, arweiniwyd y rhanau defosiynol gan Jones (Penybont), a phregethodd Evans (Gellyonen), ar 1 Ioan ii. 17; a Proff. Evans, ar Ioan xvii. 2, 3. Felly dygwyd y cyfarfodydd yma i ben, a gobeithiwn weled ffrwythau da yn canlyn.

Cynnelir y Cwrdd Blynyddol nesaf yng Nghapel y Groes, Williams (Cefn), i bregethu, a'r Cwrdd Cwarter nesaf ym Mhen-y-Bont ar Ogwy, Thomas (Pantydefaid), i bregethu. Pwngc y Gynnadled yn yr olaf, "Maddeuant Pechodau.

UN OEDD YNO.

POLITICS.—Yr oedd bwriad gennym i flino amynedd ein darllenwyr y tro hwn fel o'r blaen, ag erthygl hirfaith ar *bolitics*, ond diolchent nad oes gennym dudalenau i hebgor—braidd digon i ddyweyd yr hyn a wyr pawb, sef i'r *Sessiwn* gael ei chynnal yma y mis hwn, ac i fod yma nifer fwy nac arferol o far-gyfreithwyr, heb nemawr o waith i neb o honynt—dim ond dau neu dri *civil case*, a beth oedd hynny rhwng cynnifer! Dim arian gan ddynion eleni i ymgyfreithio. Mae yn amser lled farw y mis hwn hefyd yn y byd politicaidd, wedi y cyffroad a wnaeth Mr Gladstone y'nghylch yr Eglwys yn yr Iwerddon—cyffroad a ddygodd

Archesgobion allan o'u gorwych balasdai i areithio ar esgynlawr, fel marwolion y llwch. Mae yn hysbys i'n darllenwyr i Dy yr Arglwyddi wrthod y *Suspensory Bill*, er mawr gysur i'r offeiriaid. Mae yn dda cael tipyn o amser i anadlu; ond y drwg yw fod amser etto yn ol. Mae Bill y dreth eglwys yn debyg o basio. Dim *gorfod* talu treth eglwys mwy! Mae bron yn ddrwg gennym am hyn, oblegid ni chewn mwy gyfleusdra i gael ambell *joke* am ben yr hen fam. Ni chaiff hithau ychwaith ddim cyfleusdra mwy ei ddangos i zêl tros grefydd trwy werthu ar *auction* fiblau a gwelyau Anghydffurfwyr cyndyn a gwrthnysig. Wel, beth yn nesaf? Mae'r *lecsiwn* yn dynesu. Ceir tipyn o gyffroad etto cyn diwedd y flwyddyn. Nid ydym ni, pobl ddoeth Caerfyrddin, ddim yn gwybod yn iawn pwy sydd yn debyg o gael yr anrhydedd o'n cynrychioli ni yn y Senedd nesaf, nac ychwaith y Sîr. Enwir hwn a'r llall, ac yn eu plith y mae hen wr, meddant, dros bedwar ugain oed. Mae amryw yn danfon attom lythyron caru. Am Sîr Aberteifi, dywedir fod y Toryaid yn sicr o honno, gan nad beth am y fwrdeisdref. Ym mhlith ffermwyr Cymru y mae rhai dynion deallus, dynion o egwyddor dda, dynion ag y gellwch ymddibynu ar eu gair, a dynion na werthant eu gwlad am fydr-elw; ond y drwg yw fod gennym hefyd ryw hen *lwmpynod* o ddynion, na feddyliant am ddim ond eu bydol elw. Proffesant, lawer o honynt, fod yn Anghydffurfwyr, ond codant eu plant yn offeiriaid er mwyn y bara a chaws. Oni bai dynion o'r fath hyn, ni fyddai gwiw i Dory sefyll dros Sîr Aberteifi, nac un Sîr arall. Ofni ydym y bydd mwy yn y *lecsiwn* ddyfodol nag a fu er ys blynyddau, o lwgr-wobrwyo, scriwo, brawychu *cowardiaid*, a meddwi. Mae'r Toryaid a'r offeiriaid yn ffyrnig o herwydd cynnyg Mr. Gladstone i ddiwaddoli a dadsefydlu Esgobaeth yn yr Iwerddon; ond brwydr ydyw a fydd yn rhaid ei hymladd. Arni i raddau yr ymddibyna ein rhyddid gwladol a chrefyddol.

"GWAE A RODDO DDIOD I'W GYMMYDOG." HAB ii. 15.—Dygwyddodd i mi drafaelu yn ddiweddar yn yr un cerbyd reilffordd â gwraig weddw mewn galarwisg. Yr oedd ei dagrau yn treiglo i lawr ar hyd ei gruddiau. Dechreuasom ymddiddan ac adroddodd i mi hanes ei gwr. Dywedodd mai heddwas fu ar Reilffordd Briste a Chaerloew, a chanddo rodfa lled beryglus trwy dryffordd (*tunnel*). Yr ydoedd yn llwyrymwrthodwr â phob math o wirod poethion a diodydd meddwol. Un diwrnod, pan oedd yn Bryste, cyfarfu arolygwr y Reilffordd ag ef—dyn wyf yn adnabod yn eithaf da, dyn mwyaf cyfrifol, ac un a allaf atteb drosto, na welwyd o hono er ys blynyddau yn feddw, a dyn a ymddiriedir iddo gan y cwmpni. Dywedodd wrth yr heddwas, "Thomas," neu beth bynnag oedd ei enw, "Deuwch gyda mi i gael gwydraid o ddiod." Yr oedd y dyn yr llwyr-ymwrthodwr fel y dywedais, a'i flaenor yn dymuned dangos iddo gymmwynasedd o barch, oblegid yr oedd yn ei barchu fel dyn diwamal a gofalus. Pe dygwyddasai mai rhyw ddyn meddw a geisiai ganddo ddyfod gydag ef i gael gwydraid, attebasai, "Na wnaf ddim, diolch i chwi;" ond yr oedd arno ofn gwrthod myned gyda ei flaenor, o ganlyniad yfodd wydraid. Pan ddychwelodd adref at ei wraig, dywedodd wrthi, "Mari, yr w' i yn ddyn dinystredig." Cymerodd at yfed yr

ailwaith, ac un noswaith yfodd yn fwy nac arferol—ddigon i'w wneyd yn anwyliadwrus ac yn gysglyd. Yr oll a welwyd o hono drachefn oedd aelodau ei gorph yn wasgaredig ar hyd y Reilffordd!! 'Nawr, sylwch, ni welodd ei wraig druenus ei weddillion, ond ei blant a'u gwel'sant, a thros wyth awr a deugain ni wnaethant ddim ond ysgrechain mewn aeth a dychryn, a'r diwedd fu iddynt gael ei cludo i'r gwallgofdy! Mae hon yn wers brysur i lawer. Dyma ond un gwydraid o ddiod yn cael ei gynnyg gan ddyn cyfrifol heb feddwl dim niwed, yn achos amgeu anmhrydlawn i un o'n cyd-greaduriaid, yn ysbeilio gwraig o'i gwr, a phlant o'u tad, ac nid yn unig o'u tad, ond o'u synwyrau hefyd!—*Dr. Carpenter.*

Sylwodd Mr. Solly, mewn darlith a draddododd ys ychydig yn ol, fod yn Llundain 10,000 o dafarndai, a phe gosodid hwynt yn un llinell, y byddai yn dair milldir ar ddeg ar hugain o hyd!

Gorchymynodd gwraig fonheddig yn ddiweddar i'w bwtler am fod yn arbedus ar gasgen o ddiod fain lled wych oedd yn y seler, a gofynodd iddo y ffordd oreu i'w harbed; attebodd mai y ffordd oreu a wyddai efe am dani oedd dodi casgen o gwrw wrth ei hochr.

Dywedir os bydd y dderwen yn dygwydd deilo o flaen yr onen, y bydd yn hâf sych. Felly y bu eleni.

Ymfydwr Gwyddelig yn clywed y gwn gostwng haul *(sunset gun)* yn Portsmouth, a ofynodd i un o'r morwyr beth oedd. "Beth," oedd yr atteb, "gwn gostwng haul, yn siwr." "Gostwng haul!" ebe Pat, "a ydyw'r haul yn y wlad hon yn myn'd i lawr gyda'r fath *bowns* a hyna."

Mae'r genedl Iuddewig yn wasgaredig dros yr holl fyd. Yn Poland mae un o bob 7 o'r trigolion yn Iuddew; yn Awstria, o bob 33; yn Rwssia, o bob 42; yn Holland, o bob 52; yn Twrci, o bob 61; yn Germani, o bob 105; yn Belgium, o bob 333; yn Lloegr, o bob 446; yn Ffrainc, o bob 463; yn Switzerland, o bob 595; ac yn Scandinavia, o bob 664.

Wrth *sinco plump* yn Valladolid, mewn dyfnder o bedwar ugain a dwy droedfedd, cafwyd penglog rhyw greadur cynoesawl. Yr oedd y benglog yn bum troedfedd o hyd a thair o led!

Pan oedd Dr. South unwaith yn pregethu o flaen Charles II., maes o law, dechreuodd y brenin a'i weinyddwyr hepian, a rhai o honynt chwyrnu. Gwaeddodd y Doctor allan ar hanner ei bregeth "Lord Lauderdale, da ch'ithau, peidiwch a chwyrnu cywch, oblegid mae arnaf ofn y dihunwch y brenin."

Esgeulusodd saer unwaith wneuthur crogbren, am nad oedd wedi cael ei dalu gan y Siryd am yr un o'r blaen. Danfonodd y Sirydd am dano, a gofynodd iddo yn lled sarug, "P'am na wnaethoch grogbren i fi." "Begian eich pardwn ch'i, Syr, ebe 'r saer, "pe buaswn yn gwybod mae *i ch'i* oedd hi, buaswn yn ei gwneuthur yn union."

Gofynai Fenelon yn fynych i Richlieu am *subscriptions*, ond yn wastad yn ddilwyddiant. Dygwyddodd i Fenelon ddyweyd wrtho un diwrnod iddo weled ei *bictwr* y man hyn ar man. Gofynodd Richlieu, "A ddarfu i chwi geisio *subscription* ganddo?" "Na, wir," oedd y atteb, "meddyliais nad oedd yn un diben, oblegid yr oedd y *pictwr* mor debyg i ch'i."

Cyflogau Esgobion yr Iwerddon.—Mae llawer wedi ceisio gennym, medd y *Rock*, roddi gwybod iddynt faint yw cyflogau Esgobion yr Iwerddon. Yr ydym yn awr yn gallu cydsynio â'u cais. Ein hawdurdod yw y papyr Seneddol a gyhoeddwyd yn mis Mai 1864: Esgob Armagh, £8,328 3s. 6d.; Tuam, £4,038 19s. 3d.; Meath, £3,524 10s. 4d.; Down a Connor, £3,524 10s. 11d,; Derry, £5,939 3s.; Kilmore, £5,246 17s.; Dublin, £6,569 15s 1d.; Ferns a Leighlin, £3,961 14s. 9d; Cashel ac Emly, £4,402 13s. 4d.; Limerick, £3,961 16s. 9d.; Killaloe, £3,261 16s. 10d.; Cloyne, £2,304 3s. 3d. Y swm yw £55,110 2s. 9d. [Darllenasom rywbryd am Bab a wnaeth y sylw canlynol, pan yn ysgubo 'r aur melyn i'w arffedog sidan oddiar y bwrdd â'i

fraich, "Wedi'r cyfan, rhaid addef mai rhyw beth da rhagorol yw'r grefydd Grist'nogol yma." Pan feddyliom mor freision yw y torthau uchod, ac y mae torthau Eglwys Loegr yn frasach byth, paham y rhyfeddwn fod Ymneillduwyr tylawd Cymru yn ymdrechu codi eu plant yn offeiriaid? Trueni nad ydynt yn cael ond y briwsion.]

Yr Anffyddiwr a'r Cwacer.—Yr oedd Anffyddiwr unwaith y teithio ar ben cerbyd, a chymerodd mewn llaw i wawdio, ac i ddangos yr hanes am Dafydd yn taflu careg i dalcen y cawr, ac nid oedd yno neb yn ei wrthwynebu; ond o'r diwedd, trodd at Gwacer oedd ar y cerbyd, a gofynodd, "A oedd ef yn credu peth mor afresymol?" "O ydwyf, gyfaill," atebai yntau. "Pa fodd y gallai peth felly fod?" "Os oedd talcen y cawr mor feddal a'th dalcen di, yr oedd yn beth digon hawdd." Yna digiodd yr Anffyddiwr yn fawr, a mynai guro y Cwacer: dywedodd y 'guard' na chai wneud dim o'r fath ar y cerbyd. Ond ar ol disgyn, nid oedd dim a'i boddlonai heb gael ymladd. "Wel," meddai y Cwacer, "gan nas gellir dy foddloni heb gael ymladd, os gwnai un ammod, a mi a ymladdaf â thi." "Beth yw honno?" meddai yntau. "Gadael i mi gael dy daro di yn gyntaf." "O cei, a chroeso," meddai yr Anffyddiwr. "O wel," meddai y Cwacer, "byddwn felly heb ymladd byth." Yna estynodd yr Anffyddiwr ei law, a daethant yn gyfeillion mwy. "Ateb arafaidd a ddettry lid, ond gair garw a gyffry ddigofaint."

BU FARW.

Tachwedd 25ain, 1867, Mr. Thomas Jenkins, Cefnystrad, Ystrad, Ceredigion, yn 68 mlwydd oed.

Colli Tomos achosodd—hir alar
Mawr oleu a giliodd,
O dan boen ac nid o'n bodd,
A'n ffydd yw na ddiffoddodd.

Hwn a gyrchai at bob gorchwyl—cyflawn,
Rhag gofid i'w breswyl,
Gael bywyd mewn hyfryd hwyl,
Un tyner i'w blant anwyl.

Cymedroldeb neb ni wna—ei gadw'n
Fwy cydwedd drwy'i yrfa,
Nid rhy ar ddim drwy aur dda,
A rhoi'n isel iawn nesa'.

Yn hir bu'n dal y glorian—â'i gynghor,
Rhwng angen ac arian;
Deilliodd o'i fywyd allan
Uniondeb i'r gwyneb gwan.

Un pwyllog—dawn heb ballu—a feddai
Gwir foddion cyfryngu;
Deuai â'i lais â dau lu,
A dau annoeth gyd-dynu.

Er huno mewn daear ennyd—un oedd
Ddefnyddiol ei fywyd—
"Cofiwn, ein Tad a'i cyfyd
I'r wyl fawr yn yr ail fyd."

Penybryn, Talsarn. Jno. Jenkins.